Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cenhadaeth Cymru
## Egwyddorion ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol

Ionawr 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**
X: **@SeneddDiwyllCRh**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cenhadaeth Cymru

## Egwyddorion ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol

Ionawr 2026

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Lee Waters AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**1. Ein dull gweithredu ........ 6**

Cenhadaeth Cymru ........ 7

**2. Cyflwyniad ........ 9**

Cefndir ........ 9

Cylch gorchwyl ........ 9

Casglu tystiolaeth ........ 10

**3. Cyfrifoldeb dros gysylltiadau rhyngwladol ........ 11**

Gweithio gyda llywodraethau eraill ........ 12

Trefniadau craffu ........ 13

**4. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru ........ 16**

Strategaethau ........ 17

Tystiolaeth ........ 19

Cysylltiadau â blaenoriaeth ........ 24

Tystiolaeth ........ 26

Cytundebau rhyngwladol ........ 27

Mae nifer y cytundebau rhyngwladol sydd gan Lywodraeth Cymru yn anhysbys ........ 27

Testun cytundebau rhyngwladol ........ 28

Hysbysiad o gytundebau rhyngwladol newydd ac wedi'u hadnewyddu ........ 29

Datblygu a chyflawni ........ 30

Blynyddoedd hyrwyddo ........ 32

Tystiolaeth ........ 32

**5. Adrodd a chyflawni ........ 34**

Adrodd ..... 34

Tystiolaeth ..... 36

Cyflawni ..... 38

Tystiolaeth ..... 40

**6. Adnoddau ..... 49**

Swyddfeydd tramor ..... 50

Costau ymweliadau tramor ..... 51

Tystiolaeth ..... 52

**Atodiad 1 : Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ..... 58**

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 60**

Gwybodaeth ychwanegol ..... 61

# Rhagair y Cadeirydd

Fel pwyllgor cysylltiadau rhyngwladol y Senedd hon, rydym wedi cael y profiad unigryw o adolygu dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol dros gyfnod o bum mlynedd. Bu'n gyfle i ni fynd o'i chwmpas hi yn ein ffordd *ni ein hunain*, o safbwynt sut rydym yn cofnodi ein canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, sef ein hadroddiad olaf sy'n canolbwyntio'n unswydd ar gysylltiadau rhyngwladol.

Gadewch i ni eich cyflwyno chi i Cenhadaeth Cymru: set newydd o egwyddorion ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol; a seren ddisglair y gall llywodraethau'r dyfodol ei defnyddio i'w llywio. Byddai ei mabwysiadu yn gwella a lliniaru llawer o'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn o'n gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifoldeb ar ein holynwyr yn y Seithfed Senedd i ystyried a yw ei hegwyddorion yn cael eu bodloni.

Fel pobl ar ymyl cyfandir, rydym wedi bod yn bwrw i'r dwfn gydol ein hanes. Mae ein harfordir hir, a ddisgrifiwyd gan Jan Morris fel "drws agored i'r byd", yn ein denu allan i gysylltu â gwahanol leoedd a phobloedd, a hwythau gyda ninnau. Mae rhyng-genedlaetholdeb yn anochel.

Rydym yn cytuno â'r rhai a ddadleuodd, wrth roi eu tystiolaeth i ni, y dylai Cymru fod yn fwy hyderus ar lwyfan y byd. Ni ellir cymryd hyn yn ganiataol, nac yn wir ei adael i siawns. Rydym wedi clywed droeon am ein henw da amhrisiadwy fel cenedl groesawgar. Ac rydym wedi tystio'n uniongyrchol i gymaint o ewyllys da, angerdd ac arbenigedd sy'n hyrwyddo ein cysylltiadau rhyngwladol bob dydd.

Wrth inni nesáu at gyfnod o fwy o aflonyddwch yn y cysylltiadau sy'n gwau cenhedloedd gyda'i gilydd, mae'r angen am egwyddorion clir a mesuradwy ar gyfer ein gweithgarwch cysylltiadau rhyngwladol ein hunain yn bwysicach nag erioed. Efallai bod daearyddiaeth wedi ein gosod ar gornel cyfandir, ond ni ddylai llais Cymru byth fod yn ymylol.

I'r rhai sydd wedi helpu i lunio cyfeiriad Cymru ar lwyfan y byd hyd yma, rydym yn hynod ddiolchgar. Eich camau chi yw'r camau cyntaf, er bod ffordd hir yn ymestyn o'n blaenau.

Yn wir: mae'r dyfodol yn ein dwylo ni.

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

# 1. Ein dull gweithredu

**1.** Rydym wedi mabwysiadu dull adrodd gwahanol ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

**2.** Yn hytrach na chyhoeddi argymhellion ar gyfer y llywodraeth bresennol, rydym wedi datblygu Cenhadaeth Cymru, set newydd o 12 egwyddor ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Cymru a'r dull y dylai llywodraethau'r dyfodol ei fabwysiadu.

**3.** Mae'r egwyddorion yn tynnu ar yr ystod eang o dystiolaeth a gawsom ar gyfer yr ymchwiliad hwn a thrwy gydol y Chweched Senedd. Maent yn cwmpasu pob agwedd ar gysylltiadau rhyngwladol, o gyfrifoldebau portffolio'r cabinet, strategaethau, dulliau adrodd, cyflawni ac adnoddau.

**4.** Rydym wedi treulio pum mlynedd yn sefydlu dealltwriaeth o ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol. Rydym wedi gweld enghreifftiau cadarnhaol o effaith ystyrlon sy'n dangos pam mae gan Gymru gyfraniad pwysig i'w wneud ar lwyfan y byd.

**5.** Fel pwyllgor cysylltiadau rhyngwladol y Senedd hon, rydym am wneud cyfraniad cadarnhaol ac adeiladol at ein stori ryngwladol a ddeil brawf amser. Gwyddom pa mor hanfodol yw hi fod gan Gymru ddull da a pha mor bwysig yw hi fod llywodraethau'r dyfodol yn gwneud pethau'n iawn.

**6.** Rydym yn galw ar lywodraethau'r dyfodol i fabwysiadu Cenhadaeth Cymru yn llawn. Ni fydd ei mabwysiadu yn rhannol yn cael yr effeithiau a fwriadwyd, na'r effeithiau y carem eu gweld. Byddai ei mabwysiadu yn gwarantu bod Cymru'n cyflawni ei huchelgeisiau o ran cysylltiadau rhyngwladol yn gyson ac yn gwireddu ei photensial. Yn y dyfodol, dylai'r corff cyfoethog o dystiolaeth yr ydym wedi'i gasglu barhau i lywio'r dasg bwysicaf o gyflwyno Cymru i'r byd.

**Egwyddor 1.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fabwysiadu Cenhadaeth Cymru fel set o egwyddorion craidd ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Cymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ei hymateb i'r adroddiad hwn a phob un o egwyddorion Cenhadaeth Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fabwysiadu Cenhadaeth Cymru fel set o egwyddorion craidd ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Cymru.

## Cenhadaeth Cymru

**Egwyddor 1.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fabwysiadu Cenhadaeth Cymru fel set o egwyddorion craidd ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Cymru. ........................Tudalen 6

**Egwyddor 2.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod Gweinidog cyfrifol yn destun craffu mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol Cymru yn yr un modd ag unrhyw Weinidog portffolio arall. Dylai'r trefniadau craffu fod yn gydradd â'r disgwyliadau a roddir ar bob Ysgrifennydd y Cabinet................................................Tudalen 15

**Egwyddor 3.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fabwysiadu dull rhagweithiol ac adeiladol o weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i Gymru a chyfrannu at safbwynt Cymreig. ........................................Tudalen 15

**Egwyddor 4.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fod â strategaeth gryno, glir â ffocws, wedi'i harwain gan uchelgais lefel uchel a nifer fach o nodau cyffredinol. Dylid nodi ac esbonio'n glir yr holl drefniadau a gweithgareddau rhyngwladol. Dylai camau gweithredu â ffocws ddeillio o amcanion allweddol a thargedau mesuradwy, a chyfrannu'n uniongyrchol atynt. ...........................................................Tudalen 24

**Egwyddor 5.** Dylai llywodraethau'r dyfodol ddod i gytundeb â phwyllgor cyfrifol y Senedd ynghylch pa wybodaeth a ddarperir. Dylai hysbysiad ffurfiol o gerrig milltir allweddol mewn cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol newydd/wedi'u diweddaru, fod o fewn cwmpas y cytundeb hwn. ................Tudalen 31

**Egwyddor 6.** Dylai llywodraethau'r dyfodol gynnal lle pwrpasol ar eu gwefan i ddathlu cysylltiadau allweddol ac i gyhoeddi cytundebau rhyngwladol. .................................................................................................................................Tudalen 31

**Egwyddor 7.** Dylai llywodraethau'r dyfodol addasu a phrif ffrydio dull Tîm Cymru ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid ar draws eu gweithgaredd cysylltiadau rhyngwladol. ..................................................................................................................Tudalen 33

**Egwyddor 8.** Dylai llywodraethau'r dyfodol roi trefniadau adrodd ar waith ar ddechrau strategaeth cysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol. Dylai adroddiadau rheolaidd gwmpasu'r holl weithgaredd cysylltiadau rhyngwladol a chael eu strwythuro yn erbyn amcanion allweddol a thargedau mesuradwy. Dylent fod yn hawdd eu cyrchu mewn un lle ar wefan Llywodraeth Cymru a chael eu rhannu'n rhagweithiol â'r Senedd...............................................................................................Tudalen 47

**Egwyddor 9.** Dylai llywodraethau'r dyfodol gychwyn gwerthusiadau annibynnol rheolaidd a chymryd rhan mewn mynegeion cymell tawel. Dylid cyhoeddi eu

canlyniadau ar wefan Llywodraeth Cymru a'u rhannu'n rhagweithiol â'r Senedd. ........ Tudalen 48

**Egwyddor 10.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod gwybodaeth ariannol am weithgaredd rhyngwladol a ddarperir i'r Senedd yn ymwneud â'r amcanion allweddol a'r targedau mesuradwy yn ei strategaeth ryngwladol. ........ Tudalen 57

**Egwyddor 11.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol i wireddu eu huchelgais strategol. ........ Tudalen 57

**Egwyddor 12.** Dylai llywodraethau'r dyfodol ddefnyddio rhanddeiliaid i leddfu cyfyngiadau adnoddau. Dylent sicrhau bod cydweithio cynaliadwy yn ganolog i fecanweithiau dylunio a chyflawni strategaethau rhyngwladol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod modd cyfuno adnoddau, capasiti ac arbenigedd........ Tudalen 57

# 2. Cyflwyniad

## Cefndir

**7.** Mae cysylltiadau rhyngwladol a chymorth datblygu a chydweithredu rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, fel y nodir ym mharagraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[1] Fodd bynnag, mae lle o fewn y materion a gedwir yn ôl i Lywodraeth Cymru weithredu mewn swyddogaeth ryngwladol. Er enghraifft, gall:

- gwblhau cytundebau nad ydynt yn rhwymol gyda llywodraethau eraill mewn meysydd datganoledig;
- cynnal cyfarfodydd gyda chymheiriaid o wledydd eraill; a
- chyflwyno sylwadau am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

**8.** Gyda Strategaeth Ryngwladol 2020 Llywodraeth Cymru ("y Strategaeth") a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn dod i ben yn 2025, penderfynodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor) ystyried effaith y Strategaeth a dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol y tu hwnt i 2025.

## Cylch gorchwyl

**9.** Lansiwyd ein hymchwiliad gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

- llwyddiant y Strategaeth Ryngwladol a blaenoriaethau ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2025.
- sut mae cysylltiadau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y Strategaeth.
- yr wybodaeth sydd ar gael am weithgareddau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a dull cyflwyno'r Strategaeth.
- dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol Cymru yn y dyfodol.

---

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- sut y darperir adnoddau ar gyfer gweithgaredd cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

## Casglu tystiolaeth

**10.** Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Gorffennaf 2014, a daeth i ben ar 13 Rhagfyr 2024. Cawsom 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad.[2]

**11.** Ar 29 Ionawr 2025, aethom ati i adolygu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a phenderfynu aros cyn cael tystiolaeth lafar tan y byddai Cynllun Cyflawni Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi.

**12.** Ar 2 Ebrill 2025, cawsom friff technegol ar Gynllun Cyflawni Rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

**13.** Cynhaliwyd chwe sesiwn tystiolaeth lafar gennym gyda rhanddeiliaid, o 8 i 21 Mai 2025. Clywsom dystiolaeth lafar gan y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, ar 18 Mehefin 2025.

**14.** Cyflwynodd Claire O'Shea dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor fel cyd-Gadeirydd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru. Roedd hi i fod i roi tystiolaeth lafar ond, yn anffodus, bu farw ar 12 Mai 2025. Defnyddir tystiolaeth Claire yn helaeth yn yr adroddiad hwn a llywiodd ein dull gweithredu mewn modd amhrisiadwy.

**15.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Mae manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gael yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

---

[2] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor..

# 3. Cyfrifoldeb dros gysylltiadau rhyngwladol

**16.** Dychwelodd cysylltiadau rhyngwladol i bortffolio'r Prif Weinidog yn 2021 ar ôl penderfyniad i beidio ag ailbenodi gweinidog cysylltiadau rhyngwladol i'r Cabinet (rôl y bu'r Prif Weinidog presennol yn ei chyflawni rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Hydref 2020).[3]

**17.** Yn y Chweched Senedd, mae'r Prif Weinidog yn gyfrifol am y canlynol:[4]

- cysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys y rhwydwaith swyddfeydd tramor;
- Cymru ac Affrica;
- Cymru ac Ewrop;
- diogelwch gwladol, gan gynnwys gwrthderfysgaeth a seiberddiogelwch; a
- y Cod i Weinidogion, gan gynnwys ei ddyletswyddau rhyngwladol.

**18.** Mae hyn yn cwmpasu strategaethau cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Strategaeth Ryngwladol, pedwar o'i phum cynllun gweithredu a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol.

**19.** Mae gweinidogion eraill yn gyfrifol am elfennau o gysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru.[5] Er enghraifft, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, sy'n gyfrifol am Gynllun Gweithredu Allforio'r Strategaeth. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS, a oedd yn gyfrifol am Gynllun Gweithredu Cymru ac Affrica y Strategaeth nes iddo gael ei drosglwyddo i ofal y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2024.[6]

**20.** Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrth y Pwyllgor fod manteision ac anfanteision i gael Gweinidog penodedig neu'r Prif Weinidog yn gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol. Er enghraifft, roedd swydd benodedig yn golygu mwy o

[3] Llywodraeth Cymru: Cyfrifoldebau'r Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
[4] Llywodraeth Cymru: Cyfrifoldebau'r Prif Weinidog
[5] Llywodraeth Cymru: Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion
[6] Llywodraeth Cymru: Ymateb i'r adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2025-26, tudalen 8

fynediad at Weinidogion, ond mae proffil uwch y Prif Weinidog yn cyflwyno mwy o gyfleoedd.[7]

**21.** Dywedodd Taith y gallai colli gweinidog penodedig fod wedi niweidio'r gallu i gyflawni rhai elfennau o'r strategaeth[8] ac y byddai'r swydd benodedig yn gwella pa mor gydlynol yw adrannau'r llywodraeth a chyfraniad rhanddeiliaid.[9]

**22.** Esboniodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru sut yr arferid cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weinidog, ond eu bod wedi disgyn i lawr y rhestr flaenoriaethau fel nad oes ganddynt unrhyw berthynas ffurfiol mwyach.[10] Dywedodd y Grŵp:

> *"When the strategy was written, Eluned Morgan was the Minister responsible for international relations. And now we look where international relations is, it's part of the First Minister's portfolio, and we haven't met with the current First Minister, we never met with Vaughan Gething, and letters have taken some time to be responded to."*[11]

**23.** Dywedodd y British Council fod manteision i'r ddau fodel, ond:

> *"Either model should ensure international connections are across Wales' priorities, more so since the UK's exit from the EU, with a core team as the driving force but drawing across all government departments and partners for full impact."*[12]

## Gweithio gyda llywodraethau eraill

**24.** Yn hanesyddol, roedd cydweithrediad rhynglywodraethol domestig ar gysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau'r UE wedi'i gynnwys mewn dau

---

[7] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru
[8] WGIR 03: Taith (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 2
[9] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 284
[10] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 201
[11] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 197
[12] WGIR 10: Cyngor Prydeinig – Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 7

goncordat a oedd yn rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli 2013.[13]

**25.** Ym mis Ionawr 2022, nododd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar ôl Brexit ffyrdd newydd y byddai llywodraethau'r DU yn cydweithredu ar draws amrywiaeth o feysydd cydgyfrifoldeb allweddol.[14] Roedd bwriad cael Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol ond ni chafodd ei wireddu ac felly nid yw Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2013 wedi'i ddisodli'n llwyr. Cadarnhaodd y Prif Weinidog mewn tystiolaeth na fu unrhyw gynnydd ar y Concordat ym mis Mehefin 2025.[15]

**26.** Ar lefel strategol, mae cysylltiadau rhynglywodraethol dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, ond prin yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi am y cyfarfod hwn o lywodraethau'r DU. Er enghraifft, roedd hysbysiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn rhestru materion rhyngwladol fel maes i'w drafod, ond ni ddarparwyd unrhyw fanylion pellach.[16]

## Trefniadau craffu

**27.** Mae Prif Weinidogion wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith y flwyddyn ar gyfer gwaith craffu cyffredinol. Mae Prif Weinidogion olynol wedi gwrthod ymddangos yn y cnawd ar gyfer y craffu ar y gyllideb ddrafft, sy'n benderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi'i feirniadu'n hallt. [17]

**28.** Mae'r Prif Weinidog presennol hefyd wedi gwrthod ymddangos ar gyfer sesiynau cysylltiadau Cymru-Iwerddon yn ddiweddar,[18] mewn cyferbyniad â'r cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, a roddodd dystiolaeth lafar i ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor yn 2023.[19]

[13] Memorandum of Understanding Between the UK Government and Devolved Administrations - Hydref 2013 (Saesneg yn unig)
[14] Llywodraeth y DU: Document collection on Intergovernmental relations
[15] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 18 Mehefin 2025, paragraff 167
[16] Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Copi o ohebiaeth ynghylch y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 18 Tachwedd 2025
[17] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2026-27, tudalen 48
[18] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth - 8 Rhagfyr 2025
[19] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 10 Mai 2023

**29.** Ers ymgymryd â'r swydd ym mis Awst 2024,[20] nid yw'r Prif Weinidog wedi mynychu dadleuon y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau cysylltiadau rhyngwladol y Pwyllgor. Yn hytrach, mae Ysgrifenyddion y Cabinet eraill wedi ymateb fel a ganlyn:

- ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, i'w ymchwiliad Sioc Ddiwylliannol ym mis Chwefror 2025,[21] ac i'r adroddiad traws-bwyllgor ar weithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE ym mis Tachwedd 2025.[22]
- ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, i ail ddadl flynyddol adroddiad cysylltiadau rhyngwladol y Pwyllgor ym mis Mai 2025.[23]

**30.** Ym mis Rhagfyr 2024, mynychodd y Prif Weinidog y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar gyfer sesiwn ar thema "Cymru a'r Byd", lle'r oedd Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn bresennol.[24]

**Ein barn ni**

Mae'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi gwrthod gwahoddiadau i fynychu'r Pwyllgor yn y cnawd y tu hwnt i sesiwn flynyddol yn hynod anfoddhaol ac yn cyferbynnu'n llwyr ag ymagwedd Ysgrifenyddion y Cabinet eraill at graffu ar faterion rhyngwladol yn eu portffolios.

Credwn o hyd mai mater i'r Senedd, ac nid i Lywodraeth Cymru, yw penderfynu beth yw craffu priodol ac effeithiol, a sut y dylid cynnal gwaith craffu o'r fath. Er bod craffu drwy ohebiaeth yn aml yn ddefnyddiol, ni ddylai gymryd lle sgyrsiau wyneb yn wyneb.

Fel mater o egwyddor, os bydd Prif Weinidog yn dewis ysgwyddo cyfrifoldebau polisi, dylai sicrhau ei fod ar gael fel bod modd ei ddwyn i gyfrif am y cyfrifoldebau hynny. Os na all Prif Weinidog wneud hynny oherwydd gofynion amser, dylai ystyried dirprwyo'r cyfrifoldebau hynny i Weinidog arall.

---

[20] Llywodraeth Cymru: Prif Weinidog Cymru
[21] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 26 Mawrth 2025, paragraff 260
[22] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 5 Tachwedd 2025, paragraff 269
[23] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 21 Mai 2025, eitem 6
[24] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024, paragraff 8

Yn y Seithfed Senedd, dylai'r Gweinidog cyfrifol fod yn destun craffu mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol Cymru yn yr un modd ag unrhyw Weinidog portffolio arall. Dylai'r trefniadau craffu fod yn gydradd â'r disgwyliadau a roddir ar bob Ysgrifennydd y Cabinet. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gwaith craffu cyffredinol yn y cnawd, craffu ar y gyllideb ddrafft, ymchwiliadau a sesiynau ad hoc yn ôl yr angen. Dylai presenoldeb yn y cnawd mewn dadleuon pwyllgor a dadleuon perthnasol eraill yn y Cyfarfod Llawn gael eu cydnabod fel cyfle pwysig a gwerthfawr i gyflwyno'r achos dros weithgaredd cysylltiadau rhyngwladol Cymru.

Dylid mabwysiadu dull rhagweithiol ac adeiladol o weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i Gymru a chyfrannu at safbwynt Cymreig.


**Egwyddor 2.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod Gweinidog cyfrifol yn destun craffu mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol Cymru yn yr un modd ag unrhyw Weinidog portffolio arall. Dylai'r trefniadau craffu fod yn gydradd â'r disgwyliadau a roddir ar bob Ysgrifennydd y Cabinet.

**Egwyddor 3.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fabwysiadu dull rhagweithiol ac adeiladol o weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i Gymru a chyfrannu at safbwynt Cymreig.

# 4. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru

**31.** Mae gan Gymru lawer o gysylltiadau rhyngwladol, gyda rhai ohonynt yn rhagflaenu ffurfio'r Deyrnas Unedig. Fe'u hadlewyrchir yn ei threfniadau cysylltiadau rhyngwladol, a welir yn Ffigur 1. Mae'r rhain yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn ar ei hyd.

***Ffigur 1: Trefniadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru***



## Strategaethau

**32.** Ers 2020, mae gan Lywodraeth Cymru amryw o strategaethau a chynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol.

**33.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn gosod tri uchelgais craidd:

1. Codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
2. Tyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiad; a
3. Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.[25]

**34.** Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bum cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r Strategaeth ar ymgysylltu â Chymry ar wasgar, cysylltiadau a rhwydweithiau rhanbarthol â blaenoriaeth, cysylltiadau rhyngwladol drwy ddiplomyddiaeth gyhoeddus a chymell tawel, Cymru ac Affrica, ac allforion.[26]

**35.** Gyda'i gilydd, mae'r Strategaeth a'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys 278 o gamau gweithredu, a ddangosir yn Tabl 1 isod.[27]

***Tabl 1: Camau gweithredu sydd wedi'u rhestru yn y Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau gweithredu***

| Strategaeth Ryngwladol | Ymgysylltu â Chymry ar wasgar | Cysylltiadau rhanbarthol â blaenoriaeth | Diplomyddiaeth gyhoeddus a chymell tawel | Cymru ac Affrica | Cynllun Gweithredu Allforio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 62 | 19 | 55 | 74 | 67 | 47 | **278** |

[25] Llywodraeth Cymru: Ymgysylltu rhyngwladol i Gymru: strategaeth a chynllun cyflawni
[26] Llywodraeth Cymru: Cynlluniau gweithredu rhyngwladol
[27] Rhestr lawn o gamau gweithredu yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a chynlluniau gweithredu - 8 Mai 2025

**36.** Ym mis Mehefin 2022, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, y byddai'n gwbl hapus i drafod Strategaeth Ryngwladol yn y dyfodol gyda'r Pwyllgor cyn i'r Strategaeth ddod i ben ym mis Rhagfyr 2025.[28]

**37.** Yn y blynyddoedd dilynol, siaradodd y Prif Weinidogion, Mark Drakeford AS ac yna Vaughan Gething AS, am ddiweddaru'r Strategaeth i gwmpasu'r amser sy'n weddill rhwng y Strategaeth yn dod i ben ac etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.[29]

**38.** Ar 13 Rhagfyr 2024, dywedodd y Prif Weinidog Eluned Morgan AS wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog y byddai cynllun newydd yn cymryd lle'r diweddariad. Byddai ei ffocws ar gyflawni'r rhannau sy'n weddill o'r Strategaeth yn yr amser sy'n weddill cyn yr etholiad.[30]

**39.** Mae'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, a gyhoeddwyd ar 3 Ebrill 2025, yn nodi y bydd yn "parhau i weithio i gyflawni tri nod craidd y Strategaeth Ryngwladol"[31]. Disgrifir ei 15 nod newydd fel "ein prif flaenoriaethau ar gyfer cyflawni dros y flwyddyn nesaf". Nid yw'r 15 nod wedi'u trefnu o dan dri nod craidd y Strategaeth ac nid ydynt yn dyblygu nac yn cysylltu â gweithgareddau a restrir yn y Strategaeth na'r cynlluniau gweithredu.

**40.** Roedd y Pwyllgor ar ddeall y byddai'r Strategaeth a'r cynlluniau gweithredu yn dod i ben ddiwedd 2025, ac y byddai'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol newydd yn pontio'r bwlch rhwng diwedd y Strategaeth ac etholiad 2026. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2025, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol ill dau yn dod i ben ym mis Mawrth 2026:


> *"Mae'r flwyddyn ariannol nesaf yn adlewyrchu cyfnod pontio gan y bydd y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn*

[28] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 23 Mehefin 2023, paragraff 64
[29] Cafodd y Pwyllgor ymrwymiadau gan y cyn-Brif Weinidogion, Mark Drakeford AS a Vaughan Gething AS mewn perthynas â diweddaru'r Strategaeth yn 2023-24. Ymrwymodd Mark Drakeford i ddiweddaru'r Strategaeth yn 2025 i gwmpasu'r cyfnod tan etholiad y Senedd yn 2026, a chadarnhaodd Vaughan Gething fod cynlluniau i adolygu'r diweddariad ar y gweill.
[30] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024, paragraffau 12-15
[31] Llywodraeth Cymru: Ymgysylltu rhyngwladol i Gymru: strategaeth a chynllun cyflawni

> *dod i ben ym mis Mawrth 2026 a bydd tymor newydd y llywodraeth yn dechrau ym mis Mai 2026."*[32]

**41.** Mae Ffigur 2 yn dangos dyddiadau'r strategaethau a'r cynlluniau hyn ers lansio'r Strategaeth wreiddiol ym mis Ionawr 2020.

***Ffigur 2: Strategaethau a chynlluniau cysylltiadau rhyngwladol byw Llywodraeth Cymru (2020-2026)***




**42.** Nid yw Ffigur 2 yn dangos:

- cynlluniau ychwanegol, megis ar gyfer blynyddoedd hyrwyddo 'Cymru a/yn' Llywodraeth Cymru;
- cynlluniau sy'n ymwneud â chyflawni cytundebau rhyngwladol; a
- strategaethau eraill â dimensiwn rhyngwladol, er enghraifft, ei pholisi masnach.[33]

## Tystiolaeth

**43.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid Cymru yn cael Strategaeth Ryngwladol ac yn cytuno â thri nod craidd Llywodraeth Cymru.

**44.** Dywedodd y British Council fod cael strategaeth ryngwladol amlwg ynddi'i hun yn bwysig, gan ei bod yn dynodi'r gwerth a roddir ar waith rhyngwladol fel

[32] Llywodraeth Cymru: Tystiolaeth ysgrifenedig ar y gyllideb ddrafft 2026-27 - 31 Hydref 2025, tudalen 3
[33] Llywodraeth Cymru: Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â pholisi masnach

cenedl sy'n edrych tuag allan ac yn gyfrifol yn fyd-eang.[34] Roedd Prifysgolion Cymru yn cytuno, gan ddweud bod bodolaeth strategaeth yn bwysig gan ei bod yn amlinellu uchelgeisiau a gwerthoedd Cymru.[35] Dywedodd Dr Elin Royles ei bod yn sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu[36] a dywedodd Masnach Deg Cymru ei bod yn gosod tôn gadarnhaol ac yn ysgogi camau gweithredu.[37]

**45.** Soniodd Undeb Rygbi Cymru (WRU) am werth:

> *"... common shared passion for something that is beyond what's on paper or in policy."*[38]

**46.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Dr Elin Royles fod "yr amrywiaeth a'r ystod o weithgaredd rhyngwladol y mae Llywodraeth Cymru'n rhan ohono fo yn wych"[39] ond galwodd rhai am fwy o ffocws i gynyddu'r effaith. Er enghraifft, dywedodd y British Council fod dadl dda dros ganolbwyntio ar strategaeth fwy tynn a set o flaenoriaethau sydd â'r adnoddau priodol ar eu cyfer, gan dynnu ar bartneriaid am gefnogaeth.[40] Roedd hefyd o'r farn:

> *"Wales should take more confidence and ambition on the international stage."*[41]

**47.** Tynnodd tystion sylw at ddiffyg ymgynghori a/neu ymgysylltu ffurfiol ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, gyda'r nifer a nododd nad oedd unrhyw ymgysylltu yn uwch na'r nifer a nododd eu bod wedi cymryd rhan mewn rhywfaint o ymgysylltu.[42] Er enghraifft:

---

[34] WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 1
[35] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 2
[36] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 2
[37] WGIR 05: Cymru Masnach Deg (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 1
[38] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 99
[39] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 115
[40] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 8
[41] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 9
[42] Mae rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar yr ymchwiliad ar gael ar dudalen wefan y Pwyllgor.

- Dywedodd Global Health Partnerships fod sôn amdano yn y Strategaeth ond nad oedd yn ymwybodol ei fod wedi'i ddiweddaru.[43]
- Dywedodd CSconnected eu bod yn ymgysylltu'n agos, ond eu bod o'r farn bod strategaethau—is-strategaethau a chynlluniau—yn cael eu datblygu weithiau heb ymgynghori â'r sector diwydiant.[44]
- Dywedodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru nad oes neb o fewn y Grŵp wedi cael unrhyw sgwrs ag unrhyw un yn Llywodraeth Cymru ar lunio'r cynllun hwnnw, a bod aelodau'r Grŵp i gyd wedi dweud nad oes ganddynt sianel ymgysylltu ddiffiniedig. Dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi cyfle i gyfrannu at sicrhau bod cyflawniadau'r cynllun 12 mis newydd hwn yn cyd-fynd â'r gwaith y mae'n ei gyflawni.[45]
- Roedd eraill yn ymwybodol o'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol drwy gyfarfodydd arferol â Llywodraeth Cymru, ond nad y Cynllun oedd y ffocws.[46]

**48.** Roedd llawer yn ansicr ynglŷn â'r berthynas rhwng y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol ac roedd ganddynt wahanol safbwyntiau ar ei 15 nod, gyda'r Urdd yn nodi diffyg ffocws ar y Gymraeg.[47] Gofynnodd Taith:

> *"What are the strategic objectives? How are we going to do that? And I think the one bit that's missing, maybe, is who is part of that team Cymru, who are the stakeholders that are going to support the strategy […]"*
>
> *"… the plan could do with a bit more refinement. It looks like a shopping list a little bit, and it would be better to just maybe look at*

[43] WGIR 17: Global Health Partnerships Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[44] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025, paragraff 71
[45] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 233
[46] Mae rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar yr ymchwiliad ar gael ar dudalen wefan y Pwyllgor
[47] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 214

> *what are the strategy priorities, what are the threads that should cut across all those priorities."*[48]

**49.** Roedd ansicrwydd sylweddol ynglŷn â'r berthynas rhwng strategaethau cysylltiadau rhyngwladol a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru.[49] Roedd galwadau am fwy o gysylltiadau â'r rhain, gan gynnwys ar gyfer masnach, yr economi, diwylliant a'r Gymraeg.[50] Tynnodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru sylw hefyd at:

> *"… a need to address contradictions in policy, such as promoting Wales as a Nation of Sanctuary while enabling activities that may exacerbate global displacement and conflict."*[51]

**50.** Er bod rhai ymatebwyr yn croesawu ffocws y Strategaeth ar ddiwydiannau allweddol, megis seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion a'r diwydiannau creadigol, nododd eraill feysydd lle mae angen mwy o ffocws. Cafodd addysg, ieithoedd, diwydiannau creadigol, newid hinsawdd, datblygu rhyngwladol, diplomyddiaeth ddiwylliannol a chwaraeon a chyfnewidfeydd ieuenctid rhyngwladol eu nodi'n aml gan amryw o ymatebwyr.[52] Ychwanegodd Triathlon Cymru:

> *"I don't think that you can underestimate the impact of sport in this arena - but it is rarely mentioned."*[53]

**51.** Galwodd rhai ymatebwyr am gynlluniau gweithredu neu strategaethau newydd, megis: cynllun gweithredu Diplomyddiaeth Ddiwylliannol a Chysylltiadau

[48] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraffau 211 a 228
[49] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Cenedl Noddfa - 6 Hydref 2025
[50] Er enghraifft WGIR 12: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad a WGIR 14 - Colegau Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[51] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 15
[52] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[53] WGIR 01: Triathlon Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 2

Diwylliannol;[54] Strategaeth Addysg Ryngwladol[55] a Strategaeth Datblygiad Rhyngwladol.[56]

**Ein barn ni**

Yn ein gwaith craffu ar gysylltiadau rhyngwladol yn y Chweched Senedd, rydym wedi canfod diffyg difrifol o ran cyfeiriad strategol.

Mae nifer y strategaethau a'r cynlluniau cysylltiadau rhyngwladol byw yn ddi-fudd ac wedi cyflwyno ansicrwydd a dryswch. Mae hyn yn gwneud deall blaenoriaethau cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn her annerbyniol i'r cyhoedd, i randdeiliaid ac i'r Senedd.

Er bod rhai tystion o'r farn bod ehangder y gweithgaredd yn beth cadarnhaol, roedd yn peri problemau pellach o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac rydym yn cytuno â'r galwadau am ffocws sy'n fwy cul yn y dyfodol.

Mae datgysylltiad clir rhwng y strategaethau hyn a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad mewn meysydd lle mae Cymru'n rhagori yn rhyngwladol. Ac eithrio grŵp bach, disgrifiodd tystion lefelau amrywiol o gyfranogiad yn eu datblygiad, er gwaethaf eu lefel drawiadol o arbenigedd a phrofiad.

Rhaid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gamu i'r gwagle hwn.

Dylai fod ganddi strategaeth gryno, glir â ffocws, wedi'i harwain gan uchelgais lefel uchel a nifer fach o nodau cyffredinol. Dylid nodi ac esbonio'n glir yr holl drefniadau a gweithgareddau rhyngwladol, gyda chamau gweithredu â ffocws yn deillio o amcanion allweddol.

Er mwyn cynnal ffocws, dylid osgoi cynlluniau a strategaethau ychwanegol. Dylid archwilio cyfleoedd annisgwyl yn drylwyr gan asesu eu cyfraniad at nodau ac amcanion y strategaeth. Ni ddylid mynd ar drywydd cyfleoedd nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni, gan gadw adnoddau ar gyfer y rhai sy'n cyfrannu.

Byddai'r dull syml ond hanfodol hwn yn dileu llawer o'r problemau difrifol a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn. Byddai'n darparu arweinyddiaeth, ffocws

[54] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[55] WGIR 04: Coleg Sir Gar a Coleg Ceredigion (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[56] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3

strategol ac yn gosod llwybr clir i eraill ei ddilyn, waeth beth fo lefel yr uchelgais a'r dull a ddewisir.

**Egwyddor 4.** Dylai llywodraethau'r dyfodol fod â strategaeth gryno, glir â ffocws, wedi'i harwain gan uchelgais lefel uchel a nifer fach o nodau cyffredinol. Dylid nodi ac esbonio'n glir yr holl drefniadau a gweithgareddau rhyngwladol. Dylai camau gweithredu â ffocws ddeillio o amcanion allweddol a thargedau mesuradwy, a chyfrannu'n uniongyrchol atynt.

## Cysylltiadau â blaenoriaeth

**52.** Mae'r Strategaeth yn nodi'r cysylltiadau rhyngwladol â blaenoriaeth canlynol ar gyfer Cymru:

- *"Gwledydd â blaenoriaeth: Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada; a*
- *Rhanbarthau â blaenoriaeth: Gwlad y Basg, Llydaw a Fflandrys."*

**53.** Fe'u dewiswyd "oherwydd treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin, gwerthoedd cyffredin a buddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin."[57]

**54.** Yn ogystal, cyfeirir at yr Undeb Ewropeaidd yn y Strategaeth fel "partner pwysicaf" Cymru.[58] Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor argymhellion allweddol ar gyfer perthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys galw am strategaeth benodol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, ac i'r Undeb Ewropeaidd gael ei chynnwys fel perthynas â blaenoriaeth.[59] Ymatebodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, gan ddweud y gellid gwneud dimensiwn Ewropeaidd y Strategaeth "yn fwy eglur" pan gaiff ei diweddaru yn 2025.[60] Ym mis Chwefror

[57] Llywodraeth Cymru: Ymgysylltu rhyngwladol i Gymru: strategaeth a chynllun cyflawni
[58] Llywodraeth Cymru: Ymgysylltu rhyngwladol i Gymru: strategaeth a chynllun cyflawni
[59] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 - Tachwedd 2023, argymhellion 4-7
[60] Llywodraeth Cymru: Ymateb i Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23 - 16 Ionawr 2024

2024, cadarnhaodd na chredai fod angen strategaeth ar wahân ar gyfer yr UE ar y pryd[61], safbwynt a rannai ei olynydd, Vaughan Gething AS, ym mis Mehefin 2024.[62]

**55.** Yn ymchwiliad y Pwyllgor i'r cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon yn 2023, aseswyd effeithiolrwydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru ac argymhellodd y dylid gwella'r cydgysylltu, gwelededd a'r adnoddau ar gyfer y berthynas â blaenoriaeth hon.[63] Cytunodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford AS, y byddai canfyddiadau'r Pwyllgor yn cael eu hadlewyrchu mewn cytundebau rhyngwladol yn y dyfodol ac yng nghysylltiadau Cymru-Iwerddon yn y dyfodol.[64]

[61] Y Prif Weinidog: Copi o ohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 14 Chwefror 2024
[62] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 19 Mehefin 2024
[63] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar Gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - Hydref 2023
[64] Mae crynhoad o'r canfyddiadau ar gael yn erthygl ymchwil y Senedd Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Mwy na daearyddiaeth yn unig

## Tystiolaeth

**56.** Roedd ymwybyddiaeth gymysg ymhlith ymatebwyr ynghylch cysylltiadau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Roedd Dr Elin Royles[65] a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru[66] yn croesawu'r cam i nodi cysylltiadau â blaenoriaeth. Roedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru hefyd yn croesawu'r dull cenedl/rhanbarth.[67] Dywedodd rhai ymatebwyr fod cysylltiadau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn cyfateb i'w cysylltiadau eu hunain,[68] ond nid oedd hyn yn wir am bob ymatebydd.[69] Tynnodd Prifysgolion Cymru sylw at yr ymgynghori cyfyngedig ar eu dewis hwy.[70]

**57.** Ar gyfer y dyfodol, awgrymodd rhai gwledydd a lleoedd fel cysylltiadau â blaenoriaeth. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth o gefnogaeth eang i'r UE fel cysylltiad â blaenoriaeth ers 2021, ac ailadroddwyd hyn yn gryf mewn tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.[71] Roedd rhai ymatebwyr hefyd o blaid ymestyn y cylch gwaith daearyddol ymhellach. Cyfeiriwyd at Dde'r Byd, Singapore, Canada, Seland Newydd ac Awstralia.[72]

**58.** Roedd gweithio mwy gyda Llywodraeth y DU a chyrff y DU yn flaenoriaeth i lawer, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach,[73] Dr Elin Royles[74] a'r British Council.[75] Roedd cefnogaeth hefyd gan ymatebwyr unigol i'r canlynol ddod yn

---

[65] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[66] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad
[67] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad
[68] WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig), WGIR 09: Maint Cymru - (Saesneg yn unig) a WGIR 03: Taith (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[69] Yn cynnwys WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad a WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[70] WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[71] WGIR 03: Taith (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig), WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig), WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig_, WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) a WGIR 14: Colegau Cymru (Saesneg yn unig)
[72] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 14: Colegau Cymru (Saesneg yn unig) a WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) ,
[73] WGIR 12: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[74] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[75] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad

gysylltiadau â blaenoriaeth: y Cymry ar wasgar a busnes,[76] UNESCO,[77] busnesau bach a chanolig,[78] rhwydweithio rhyngwladol ac Ewropeaidd.[79]

**59.** Awgrymodd eraill y dylid mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar werthoedd yn lle hynny. Dadleuodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o blaid defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, tra bod Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru yn dadlau y dylai Cymru alinio ei chysylltiadau â'r egwyddor o gyfrifoldeb byd-eang.[80] Fodd bynnag, yn ôl y British Council, er ei fod yn ganmoladwy:

> *"we would caution against this driving decisions on engagement in countries where values don't align. This reduces the powerful impact of cultural diplomacy.*
>
> *It would be preferable to engage on the areas that do align whilst retaining one's own values, rather than disengage since there are many countries in the world whose values are not similar to our own.*[81]

## Cytundebau rhyngwladol

**60.** Gall Llywodraeth Cymru gwblhau cytundebau nad ydynt yn rhwymol gyda llywodraethau eraill mewn meysydd datganoledig. Mae ganddi gytundebau â gwledydd, rhanbarthau a dinasoedd.

### Mae nifer y cytundebau rhyngwladol sydd gan Lywodraeth Cymru yn anhysbys

**61.** Nodir naw cytundeb ar dudalen we bwrpasol ar wefan Llywodraeth Cymru a sefydlwyd ar gais y Pwyllgor hwn[82], sef: Iwerddon; Quebec; Gwlad y Basg; Rhaglawiaeth Oita; Fflandrys; Llydaw; Baden-Württemberg; Silesia; a Birmingham, Alabama. Fodd bynnag, mae deuddeg cytundeb wedi'u rhestru yn y Strategaeth.[83]

---

[76] WGIR 16: GlobalWelsh (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[77] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[78] WGIR 12: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[79] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[80] Llywodraeth Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad a Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 172
[81] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 5
[82] Llywodraeth Cymru: Cytundebau dwyochrog trawsbynciol
[83] Llywodraeth Cymru: Strategaeth Ryngwladol, Atodiad A - Memoranda Cyd-ddealltwriaeth

**62.** Teitl gwreiddiol y dudalen we oedd 'Cytundebau dwyochrog rhyngwladol' ond newidiwyd hyn yn ddiweddarach i 'Cytundebau dwyochrog trawsbynciol' gan fod y Pwyllgor hwn wedi gohebu â'r cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, ynghylch cytundebau a oedd yn ymddangos ar goll.[84] Er enghraifft, nid yw cytundeb recriwtio gofal iechyd Llywodraeth Cymru gyda thalaith Kerala yn India ar y dudalen we.[85]

**63.** Esboniodd y cyn-Brif Weinidog fod y dudalen we wedi'i diweddaru i gynnwys cytundebau:

> *"… sy'n cael eu darparu ar draws y llywodraeth, wedi'u cydlynu gan fy nhîm Cysylltiadau Rhyngwladol, yn hytrach na chytundebau polisi unigol."*[86]

**64.** Canlyniad y dull diwygiedig hwn yw nad yw'n glir faint o gytundebau dwyochrog rhyngwladol sydd gan Lywodraeth Cymru, a chyda phwy. Nid yw'r Pwyllgor wedi llwyddo i gael rhestr gyflawn o gytundebau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, er ei fod wedi gwneud sawl cais amdani.

**65.** Dyma'r safbwynt diweddaraf, a esboniwyd gan y Prif Weinidog:

> *"… mae dogfennau y gellid eu hystyried yn gytundebau rhyngwladol yn cael eu llofnodi'n rheolaidd ar draws y llywodraeth gyfan i alluogi cyflawni canlyniadau a byddai rhestru pob dogfen y gellid ei hystyried yn gytundeb rhyngwladol yn cymryd gormod o amser i'w casglu, yn tynnu sylw oddi wrth gyflawni, ac ni fyddai'n gyrru ymlaen i gyflawni ein hamcanion. Mae'n rhaid i feysydd polisi unigol benderfynu a ydyn nhw am gyhoeddi manylion eu cytundebau rhyngwladol."*[87]

## Testun cytundebau rhyngwladol

**66.** Mae'r Pwyllgor wedi holi pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi copïau o gytundebau rhyngwladol, yn wahanol i rai o'i phartneriaid rhyngwladol.

[84] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth ynghylch Datganiad Rennes - 2 Gorffennaf 2024
[85] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth Kerala - 2 Mawrth 2024
[86] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth ynghylch Datganiad Rennes - 2 Gorffennaf 2024
[87] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol 2024-25 - 9 Mai 2025, tudalen 5

Er enghraifft, mae gan lywodraethau Iwerddon[88] a Baden-Württemberg[89] dudalennau gwe pwrpasol yn dathlu eu cytundebau â Chymru, gyda'r testun ar gael mewn sawl iaith.

**67.** Ym mis Mehefin 2024, cadarnhaodd y Prif Weinidog ar y pryd, Vaughan Gething AS, fod crynodebau o'r cytundebau wedi'u hychwanegu at y dudalen we ar gais y Pwyllgor ond bod camgymeriad, a nodwyd gan y Pwyllgor, wedi golygu na chyhoeddwyd crynodeb o'r Cytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol ag Alabama. Cafodd hyn ei gywiro wedi hynny.[90]

## Hysbysiad o gytundebau rhyngwladol newydd ac wedi'u hadnewyddu

**68.** Mae'r Pwyllgor wedi gofyn, ar sawl achlysur, am gael ei hysbysu am gytundebau rhyngwladol newydd sydd wedi'u cwblhau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gyda Baden-Württemberg a Rennes.[91]

**69.** Ym mis Mai 2025, derbyniodd y Prif Weinidog argymhelliad gan y Pwyllgor a chytunodd i roi "mecanweithiau ar waith i hysbysu'r Pwyllgor pan fydd cytundebau dwyochrog rhyngwladol trawsbynciol newydd yn cael eu llofnodi"[92].

**70.** Er gwaethaf yr ymrwymiad hwn, ni chafodd y Pwyllgor ei hysbysu'n ffurfiol am Gyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru 2030, a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf 2025. Darparodd tîm swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn friff technegol ar y cytundeb yn ddiweddarach y mis hwnnw.

**71.** Mae'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn cynnwys ymrwymiad i ddyfnhau ymgysylltiad Ewropeaidd, gan gynnwys llofnodi cytundebau newydd neu wedi'u diweddaru â Chatalonia a Gwlad y Basg.[93] Dywedodd y Prif Weinidog yn flaenorol wrth y pwyllgor y byddai hyn yn digwydd "ar ddechrau 2026"[94].

---

[88] Adran Materion Tramor a Masnach Llywodraeth Iwerddon: Cyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru a Chynllun Gweithredu ar y cyd 2030
[89] Cymru a Baden Württemberg yn ehangu cydweithrediad – 14 Tachwedd 2023
[90] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth ynghylch Datganiad Rennes - 2 Gorffenaf 2024
[91] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Llythyr at y Prif Weinidog - 13 Mehefin 2024 a Llythyr at y Prif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi - 19 Rhagfyr 2023
[92] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol 2024-25 - 9 Mai 2025
[93] Llywodraeth Cymru: Ymgysylltu rhyngwladol i Gymru: strategaeth a chynllun cyflawni
[94] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025, tudalen 16

**72.** Llofnododd y Prif Weinidog femoranda dealltwriaeth gyda llywodraethau priodol Catalwnia a Gwlad y Basg ar 7 ac 8 Ionawr 2026. Cyhoeddwyd y rhain mewn datganiad i'r wasg ar 8 Ionawr.[95] Hysbyswyd y Pwyllgor o'r cytundebau wedi hynny ar 13 Ionawr 2026.[96]

**73.** Yn yr hysbysiad, ailadroddodd y Prif Weinidog safbwynt ei rhagflaenydd, sef na fyddai testunau cytundebau rhyngwladol yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac y byddai crynodebau yn cael eu hychwanegu at y dudalen we yn lle hynny. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd tudalen we Llywodraeth Cymru wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r cytundebau newydd.

## Datblygu a chyflawni

**74.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diweddariadau cynnydd ar gyflawni ei chytundebau rhyngwladol.

**75.** Ym mis Rhagfyr 2025, penderfynodd y Pwyllgor ailystyried ei ymchwiliad i'r cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon yn 2023 yn dilyn cyhoeddi'r cytundeb wedi'i ddiweddaru rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon.[97]

**76.** Yn yr un ffordd ag ymchwiliad 2023, roedd ymwybyddiaeth gymysg ymhlith tystion o'r diweddariad, sy'n dangos bod angen i Lywodraeth Cymru barhau i wella ei dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu.[98] Er enghraifft, nid oedd Amgueddfa Cymru, sydd wedi'i rhestru yn y cytundeb fel partner cyflawni allweddol, yn rhan o'r diweddariad tan iddi gael cais gan Lywodraeth Cymru i gynnal y digwyddiad lansio.[99]

### Ein barn ni

Mae gan Gymru lawer o gytundebau rhyngwladol pwysig ar waith gyda phartneriaid rhyngwladol.

---

[95] Llywodraeth Cymru: Rhaid i Gymru fanteisio ar bob cyfle i weithio gyda chenhedloedd a rhanbarthau eraill" yn dilyn cytundebau gyda Chatalwnia a Gwlad y Basg
[96] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan y Prif Weinidog yn darparu hysbysiad o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u llofnodi – 13 Ionawr 2026
[97] Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad a gwaith dilynol y Pwyllgor ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[98] Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad a gwaith dilynol y Pwyllgor ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[99] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 4 Rhagfyr 2025, paragraff 192

Mae rhai yn cyhoeddi eu cytundebau rhyngwladol yn llawn mewn sawl iaith, gan ddathlu eu partneriaeth â Chymru.

Ar y llaw arall, dim ond oherwydd bod y Pwyllgor wedi galw am greu tudalen we bwrpasol ac, yn ddiweddarach, i wella'r wybodaeth arni yr ydym yn gwybod am gytundebau Cymru. Mae'n annerbyniol bod rhaid i'r Pwyllgor wneud cymaint o ymdrech i sicrhau safonau gofynnol o dryloywder ar gytundebau rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn falch o'u hyrwyddo a'u dathlu.

Mae'r ffaith na all Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr o'i chytundebau rhyngwladol presennol yn ddryslyd ac yn symptom o ddiffyg goruchwyliaeth strategol a gweithredu. Nid ydym wedi cael gwybod am gytundebau newydd neu wedi'u diweddaru, er gwaethaf sawl cais, er ein bod yn cydnabod bod ymrwymiad diweddar gan y Prif Weinidog wedi arwain at hysbysiad o gytundebau â Chatalwnia a Gwlad y Basg.

Byddai mabwysiadu strategaeth glir ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, wedi'i hategu gan egwyddorion craidd, yn gwella'r diffygion hyn y gellir eu cywiro.

Dylai llywodraethau'r dyfodol gynnal safon ofynnol o wybodaeth am gytundebau rhyngwladol Cymru ar eu gwefan. Dylai hyn gynnwys rhestr o'r holl gytundebau, lle pwrpasol ar y wefan i ddathlu cysylltiadau allweddol ac i gyhoeddi cytundebau. Dylai Llywodraeth Cymru adlewyrchu'r dull a ddefnyddir gan bartner rhyngwladol o leiaf.

Dylid hysbysu'r Senedd am gerrig milltir allweddol mewn cysylltiadau rhyngwladol, megis cytundebau rhyngwladol a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru.

Dylai pwyllgor cyfrifol yn y dyfodol a Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb ynghylch pa wybodaeth a ddarperir, gan atgyfnerthu'r enillion a wnaed gan y Pwyllgor hwn. Byddai hyn yn sicrhau na fydd rhaid i bwyllgorau yn y dyfodol ddechrau o'r dechrau a bod cynsail yn bodoli gyda'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

**Egwyddor 5.** Dylai llywodraethau'r dyfodol ddod i gytundeb â phwyllgor cyfrifol y Senedd ynghylch pa wybodaeth a ddarperir. Dylai hysbysiad ffurfiol o gerrig milltir allweddol mewn cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol newydd/wedi'u diweddaru, fod o fewn cwmpas y cytundeb hwn.

**Egwyddor 6.** Dylai llywodraethau'r dyfodol gynnal lle pwrpasol ar eu gwefan i ddathlu cysylltiadau allweddol ac i gyhoeddi cytundebau rhyngwladol.

## Blynyddoedd hyrwyddo

**77.** Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu blynyddoedd hyrwyddo, gan ganolbwyntio ar bartner rhyngwladol gwahanol bob blwyddyn: Yr Almaen (2021),[100] Canada (2022),[101] Ffrainc (2023),[102] India (2024)[103] a Japan (2025).[104] Nid yw blynyddoedd hyrwyddo yn rhan o'r Strategaeth.

**78.** Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Vaughan Gething AS, wrth y Pwyllgor yn 2024 fod blynyddoedd hyrwyddo wedi bod yn destun gwerthusiad (naill ai'n fewnol neu'n annibynnol), ond nid yw'r rhain yn cael eu cyhoeddi na'u rhannu â'r Pwyllgor.[105]

### Tystiolaeth

**79.** Mae rhanddeiliaid wedi siarad yn gadarnhaol am flynyddoedd hyrwyddo yn ystod y Chweched Senedd, gan gyfeirio at eu hyd fel yr unig ddiffyg. Roedd y ddwy thema hyn yn amlwg eto yn yr ymchwiliad hwn.

**80.** Cafodd dull cydweithredol y blynyddoedd Tîm Cymru, lle mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau i gydlynu gweithgaredd ac adnoddau, ei groesawu gan lawer, gyda rhai, gan gynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru,[106] yr Urdd[107] a Dr Elin Royles,[108] yn galw eto am iddynt gael eu cynnal dros gyfnod hwy i gael yr effaith fwyaf.

### Ein barn ni

Mae dull Tîm Cymru a'r ffocws, yr ysgogiad a'r brwdfrydedd y mae'n eu creu yn amlwg. Mae'n amlwg mai dyma'r lefel o ymgysylltiad y mae rhanddeiliaid yn ysu amdani, sydd o fudd iddynt ac sydd, yn ddigon cywir, yn ddisgwyliedig ganddynt.

[100] Llywodraeth Cymru: Dathlu blwyddyn o ymgyrch Cymru yn yr Almaen
[101] Llywodraeth Cymru: Cymru yng Nghanada – Blwyddyn i'w Chofio - 11 Ebrill 2023
[102] Llywodraeth Cymru: Cymru yn Ffrainc 2023 – 17 Awst 2023
[103] Llywodraeth Cymru: Cymru yn India 2024 – 26 Ionawr 2024
[104] Llywodraeth Cymru: Cymru a Japan 2025
[105] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn dilyn sesiwn craffu ar gysylltiadau rhyngwladol - 1 Awst 2024
[106] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad
[107] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 306
[108] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r ffaith bod rhanddeiliaid wedi galw am gynnal y blynyddoedd dros gyfnod hwy yn dangos i ni na ddylai llywodraethau'r dyfodol gadw dull Tîm Cymru ar gyfer un math o weithgaredd yn unig. Dylid addasu dull Tîm Cymru a'i brif ffrydio ar draws ei weithgaredd cysylltiadau rhyngwladol.

**Egwyddor 7.** Dylai llywodraethau'r dyfodol addasu a phrif ffrydio dull Tîm Cymru ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid ar draws eu gweithgaredd cysylltiadau rhyngwladol.

# 5. Adrodd a chyflawni

## Adrodd

**81.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd ar ei chysylltiadau rhyngwladol mewn un lle a'r tro cyntaf i'r Pwyllgor amlinellu'r heriau y mae hyn yn eu cyflwyno oedd yn 2022.[109] Ym mis Tachwedd 2023, dechreuodd y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun ar ei waith craffu.[110]

**82.** Nid yw'r dulliau adrodd a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cyfeirio at 278 cam gweithredu'r Strategaeth yn ystod y Chweched Senedd.

**83.** Cyfarwyddodd y ddau gyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS[111] a'r Prif Weinidog presennol,[112] swyddogion i symud oddi wrth ysgrifennu adroddiadau i ganolbwyntio ar gyflawni. Cyn hyn, ni allai'r cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, gytuno â galwad y Pwyllgor am adroddiadau pwrpasol ar gyfer Cymru ac Iwerddon oherwydd cyfyngiadau "difrifol" ar adnoddau.[113]

**84.** Cyfeiriwyd y Pwyllgor gan bob un o'r tri Phrif Weinidog at adroddiadau blynyddol swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru er mwyn craffu ar y dull cyflawni (newidiwyd yr enw yn 2024 i "Adroddiad blynyddol cysylltiadau rhyngwladol").[114] Dywedodd y Prif Weinidog presennol wrth y Pwyllgor mai dim ond "un o'r dulliau" a ddefnyddiwyd yw hwn.[115]

**85.** Mewn ymateb i gais y Pwyllgor hwn,[116] darparodd y Prif Weinidog restr o'r holl ddulliau y mae'n eu defnyddio i adrodd ar ganlyniadau:

> *"**Cyhoeddus:** datganiadau llafar, datganiadau ysgrifenedig, datganiadau i'r wasg, cyfweliadau i'r wasg, atebion i gwestiynau'r*

[109] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol
[110] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru
[111] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn dilyn sesiwn craffu blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol - 1 Awst 2024
[112] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024, paragraff 38
[113] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 15 Tachwedd 2023, tudalen 4
[114] Llywodraeth Cymru: Cysylltiadau a datblygiad rhyngwladol
[115] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth - 20 Rhagfyr 2024, tudalen 3
[116] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Mawrth 2025, argymhelliad 3

> *Senedd, ymddangosiadau gerbron Pwyllgorau'r Senedd a phapurau tystiolaeth.*
>
> *"**Mewnol:** adroddiadau misol i weinidogion o bob rhan o'r timau cysylltiadau rhyngwladol yng Nghymru a thramor, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn y Strategaeth Ryngwladol. Mae adroddiadau gwerthuso 'Cymru a' ar gyfer blynyddoedd hefyd yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau."*[117]

**86.** Mewn ymateb i gais ar wahân gan y Pwyllgor,[118] cytunodd y Prif Weinidog presennol i gynnwys yn adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu penodol a restrir yn ei strategaethau.[119]

**87.** Ym mis Mehefin 2025, dywedodd y Prif Weinidog ei bod wedi rhoi ystyriaeth bellach i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ac amlinellodd ei bwriad i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn y dyfodol, megis diweddariadau cynnydd chwarterol ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol.[120]

**88.** Gwahoddodd y Prif Weinidog y Pwyllgor i roi adborth ar y diweddariad ar gynnydd cyntaf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol a gafwyd ym mis Medi 2025.[121] Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys gofyn i'r strwythur ddilyn 15 nod y Cynllun.[122] Mae'r ail ddiweddariad ar gynnydd, a ddaeth i law ym mis Tachwedd 2025, yn dilyn y strwythur hwn.[123]

---

[117] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol 2024-25 - 9 Mai 2025, tudalen 4
[118] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Mawrth 2025, argymhelliad 2
[119] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol 2024-25 - 9 Mai 2025
[120] Llywodraeth Cymru: Adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol a gohebiaeth gan y Prif Weinidog - 9 Mehefin 2025, tudalen 1
[121] Llywodraeth Cymru: Diweddariad Cyntaf ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol - 21 Gorffennaf 2025
[122] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Gohebiaeth yn rhoi adborth ar ddiweddariadau'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol - 6 Hydref 2025
[123] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025

## Tystiolaeth

**89.** Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod bylchau yn yr adroddiadau ar y Strategaeth a bod ansicrwydd ynghylch a oedd gweithgaredd monitro rheolaidd wedi'i gynnal, megis cyfarfodydd â rhanddeiliaid ddwywaith y flwyddyn.[124]

**90.** Roedd rhai tystion yn gyfarwydd ag adroddiadau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru. Yn ôl Dr Elin Royles, gan nad yw'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno o dan dair nod y Strategaeth, nid yw'n glir sut y mae'r gweithgaredd yn cyfrannu at bob un.[125]

**91.** Roedd yr ymatebwyr yn gryf o blaid sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn fwy rheolaidd. Dywedodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru ei bod yn anodd mesur ymdrechion y Llywodraeth heb yr wybodaeth hon.[126] Dywedodd Colegau Cymru nad yw'n ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau ar ddull cyflawni'r Strategaeth, er gwaethaf cyfarfodydd misol â swyddogion sy'n gweithio ym maes addysg ryngwladol.[127]

**92.** Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod adrodd yn bwysig er mwyn dangos gwerth gwaith rhyngwladol a chynyddu dealltwriaeth o'i fanteision i Gymru, yn enwedig gan fod materion domestig fel arfer yn cael eu blaenoriaethu. Roeddent yn cytuno y byddai hyn hefyd yn cynyddu cymorth domestig.[128]

**93.** Gwnaeth y British Council y pwynt hwn:

> *"… the impact of international working on the domestic agenda and how it directly affects the livelihoods, skills, ambitions and outlooks of people in Wales needs to be communicated and explained transparently if the people of Wales are to support an international strategy. In particular, working internationally, by its very nature, can be expensive, so data or costs or statistics need context and results presented alongside."*[129]

---

[124] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[125] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[126] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad,
[127] WGIR 14: Colegau Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 4
[128] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[129] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 7

**94.** Dywedodd Maint Cymru a Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru fod diffyg cyfathrebu yn golygu bod risg i ewyllys da y cyhoedd a bod lle i gamddealltwriaeth neu gamwybodaeth. Ychwanegodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru y byddai mwy o dryloywder yn meithrin hyder y cyhoedd ac y gallai:

> *"… counter potential backlash from those who may perceive international work as a diversion from domestic priorities."*[130]

**95.** Roedd GlobalWelsh a Global Health Partnerships yn cytuno nad yw'r Strategaeth wedi cael ei chyfathrebu'n effeithiol a bod hyn wedi cyfyngu ar ei heffaith. Tynnodd GlobalWelsh sylw at ei ymchwil o fis Tachwedd 2024 sy'n dangos mai dim ond naw y cant o'r 1,709 o Gymry ar wasgar a holwyd a oedd wedi clywed am y Strategaeth. Dywed fod lefel yr ymwybyddiaeth yn llawer rhy isel a bod effaith y Strategaeth yn gyfyngedig iawn o ganlyniad.[131]

**96.** Cyfeiriodd tystion eraill, megis Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, at adroddiadau eu sefydliadau eu hunain i bennu a oedd nodau'r Strategaeth wedi'u cyflawni.[132]

**97.** Nododd rhai fod Llywodraeth Cymru yn dibynnu mwy ar y cyfryngau cymdeithasol i adrodd ar ei weithgareddau. Dywedodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru fod hyn yn digwydd yn achlysurol a bod angen dull mwy cynhwysfawr.[133] Dywedodd Triathlon Cymru ei fod yn defnyddio LinkedIn i ddod o hyd i wybodaeth.[134] Awgrymodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid i rannu gwybodaeth ar draws platfformau, gyda'r posibilrwydd o bartneriaid yn arwain ar fentrau penodol.[135]

**98.** Cyflwynwyd llawer o syniadau ar ba wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol, megis blaenoriaethau, nodau, dangosyddion perfformiad allweddol, astudiaethau achos,

---

[130] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 8
[131] WGIR 16: GlobalWelsh (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 4
[132] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025 a Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025
[133] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 11
[134] WGIR 01: Triathlon Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 1
[135] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 5

straeon llwyddiant, adroddiadau ar gynnydd, asesiadau effaith, proffiliau partneriaethau, ystadegau, tystiolaeth o effaith a chyfleoedd ariannu.

**99.** Cafwyd galwadau i gysylltu gweithgaredd ag amcanion er mwyn caniatáu i randdeiliaid gefnogi gweithgareddau, neu gyfrannu atynt, mewn ffordd systematig.[136] Ychwanegodd Prifysgol Caerdydd y byddai mecanwaith adborth i randdeiliaid yn gwella tryloywder ac yn meithrin ymdeimlad o gymuned.[137] Credai y gall rhannu llwyddiannau ysbrydoli cydweithio a buddsoddi pellach mewn gweithgareddau rhyngwladol.[138]

## Cyflawni

**100.** Ym mis Tachwedd 2023, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i roi diweddariad ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu tymor byr a chanolig a restrir yn y Strategaeth.[139]

**101.** Ym mis Mehefin 2024, rhannodd y Pwyllgor restr o 278 cam gweithredu y Strategaeth gyda Llywodraeth Cymru gan nad oedd wedi derbyn y diweddariad. Dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Vaughan Gething AS, fod y rhestr yn ddefnyddiol wrth adolygu'r camau gweithredu,[140] ond ni ddarparwyd y diweddariad yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**102.** Ym mis Rhagfyr 2024, ailadroddodd y Prif Weinidog presennol y cynnig i roi diweddariad ar gynnydd yn ystod sesiwn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar y thema Cymru a'r Byd.[141] Esboniodd y Prif Weinidog ei bod o'r farn mai rôl y Pwyllgor hwn yw craffu ar y dull cyflawni ei hun a dywedodd ei bod yn ceisio rhoi pwysau ar ei swyddogion i rannu'r wybodaeth.[142]

**103.** Wrth esbonio dull coch-oren-gwyrdd yr asesiad, ychwanegodd y Prif Weinidog:

[136] WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 10
[137] WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[138] WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 7
[139] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2022-23 - Tachwedd 2023, argymhelliad 3
[140] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion - 19 Mehefin 2024, paragraff 126
[141] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024
[142] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024, paragraff 34

> *"… that is very much the formula that I'm very keen to make sure that you have sight of, where it is we're delivering, and also where you need to hold us to account because we're not."*[143]

**104.** Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad ar gynnydd ym mis Tachwedd 2025, ddwy flynedd ar ôl ei gais cyntaf.[144] Mae'n cwmpasu'r Strategaeth Ryngwladol a phedwar o'r pum cynllun gweithredu, ac eithrio'r Cynllun Gweithredu Allforio.

**105.** Cafodd diweddariad ar gynnydd ar 47 cam gweithredu'r Cynllun Gweithredu Allforio ei ddarparu i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) o fewn deufis i gais at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, ym mis Mawrth 2025.[145] Fodd bynnag, nid yw'r asesiad hwn yn defnyddio sgôr coch-oren-gwyrdd i nodi a yw'r camau gweithredu wedi'u cyflawni ac mae'r Prif Weinidog yn cadarnhau yn ei diweddariad ar gynnydd ym mis Tachwedd 2025 nad yw'r asesiad hwn wedi'i ddiweddaru.[146]

**106.** Mae'r dogfennau sy'n cyd-fynd â diweddariad ar gynnydd y Prif Weinidog yn nodi:

> *"Mae 90% o'r camau gweithredu yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru wedi'u cyflawni neu maent wrthi'n cael eu cyflawni."*[147]

**107.** Nid yw'n glir sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd y ganran hon. Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn dangos bod 77 y cant o'r camau gweithredu yn y Strategaeth a'r cynlluniau gweithredu gyda'i gilydd wedi'u cyflawni neu wrthi'n cael eu cyflawni. Mae 95 y cant o'r camau gweithredu yn y Strategaeth yn unig wedi'u cyflawni neu wrthi'n cael eu cyflawni. Dangosir y cyfrifiadau hyn yn NhTabl 1.

---

[143] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: Cofnod y Trafodion - 13 Rhagfyr 2024, paragraff 196
[144] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025
[145] Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig - 3 Mawrth 2025
[146] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025
[147] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025, tudalen 16

***Tabl 2: Statws cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth Ryngwladol a'r cynlluniau gweithredu***

| | Cyfanswm y camau gweithredu | Coch ("Heb ei gwblhau") | Oren ("Wedi'i gwblhau'n rhannol") | Gwyrdd ("Wedi'i gwblhau'n llawn neu wrthi'n cael ei gyflawni") |
|---|---|---|---|---|
| **Pob un** | **278** | **9 (3%)** | **11 (4%)** | **213 (77%)** |
| Strategaeth Ryngwladol | 62 (22%) | 3 (5%) | 2 (3%) | 59 (95%) |
| Ymgysylltu â Chymry ar wasgar | 19 | 4 (21%) | 2 (11%) | 13 (68%) |
| Cysylltiadau a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth | 55 | 0 | 0 | 55 (100%) |
| Diplomyddiaeth gyhoeddus a chymell tawel | 74 | 1 (1%) | 6 (8%) | 67 (91%) |
| Cymru ac Affrica | 21 | 1 (5%) | 1 (5%) | 19 (91%) |
| Cynllun Gweithredu Allforio | 47 | ? | ? | ? |

**108.** Nid yw dogfennau'r Prif Weinidog yn nodi pa gamau gweithredu "gwyrdd" sydd wedi'u cwblhau a pha rai sydd wrthi'n cael eu cyflawni.[148] Mae hyn, ynghyd â'r diffiniadau cysylltiedig o goch, oren a gwyrdd, yn golygu bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gyflawni a'r hyn sydd heb ei gyflawni.

**109.** Ym mis Hydref 2025, cyhoeddwyd gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Allforio, a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet.[149] Wedi hynny, argymhellodd y Pwyllgor, fel rhan o'i waith craffu ar y gyllideb ddrafft, fod y Strategaeth, ei phedwar cynllun gweithredu a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn ddarostyngedig i'r un broses werthuso allanol.[150]

## Tystiolaeth

**110.** Dywedodd yr ymatebwyr nad yw bob amser yn glir sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur o ran y Strategaeth, a beth yw'r mecanweithiau ar gyfer goruchwylio'r

[148] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025
[149] Adroddiad Llywodraeth Cymru: Rhaglenni cymorth allforio: gwerthusiad o effaith
[150] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2026-27

broses weithredu. Galwodd llawer o'r ymatebwyr am werthusiad o lwyddiant y Strategaeth, yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol.

**111.** Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn ansicr ynglŷn â'r cynnydd cyffredinol ac a oedd camau gweithredu yn eu sectorau wedi'u cyflawni.[151] Rhoddodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru enghraifft o adroddiad 10 mlynedd ar Gymru ac Affrica a oedd heb ei gyhoeddi, sy'n ei gwneud yn anodd mesur llwyddiant yn erbyn amcanion y Strategaeth.[152]

**112.** Cadarnhaodd rhai sefydliadau a oedd yn rhan o gamau gweithredu unigol yn y Strategaeth, neu'n gyfrifol amdanynt, eu bod wedi'u cyflawni mewn sesiwn dystiolaeth. Er enghraifft, Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chymdeithas Rygbi Cymru oedd sicraf ynghylch statws cyflawni'r camau gweithredu yn ymwneud â thwrnameintiau rhyngwladol.[153]

**113.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r tystion fod diffyg metrigau a thargedau yn y Strategaeth sy'n cael eu hadrodd yn gyhoeddus neu sy'n hawdd eu cyrchu. Er enghraifft, nododd GlobalWelsh ei fod wedi gorfod cydymffurfio â thargedau Llywodraeth Cymru yn y gorffennol ac y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod hithau'n cydymffurfio hefyd, ac yn gwneud nid dim ond dweud.[154] Fodd bynnag, roedd y British Council yn anghytuno, gan ddweud bod y mesurau yno ond efallai nad oeddent o reidrwydd yn gwybod amdanynt gan nad oeddent yn gweithio i Lywodraeth Cymru, a bod hynny'n allweddol.[155]

**114.** Credai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fod rhai pethau wedi gweithio'n well nag eraill, gan gyfeirio at y blynyddoedd hyrwyddo a oedd wedi ei alluogi i ddatblygu'r model Tîm Cymru, ac i hwnnw lwyddo.[156]

**115.** Gofynnwyd i dystion a oedd tri nod y Strategaeth wedi'u cyflawni. Crynhoir eu barn yn yr adrannau nesaf.

---

[151] Mae rhestr o'r holl sesiynau tystiolaeth sydd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[152] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 12
[153] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 49
[154] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 10
[155] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 12
[156] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025, paragraff 159

### Ar godi proffil Cymru

**116.** Dywedodd y British Council fod canlyniadau'r nod hwn yn amlwg, gyda thros 100 o ymweliadau diplomyddol â Chymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond dywedodd hefyd mai dyma'r nod anoddaf i'w fesur.[157] Roedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cytuno, gan ddweud bod y 5 mlynedd diwethaf wedi gweld proffil Cymru yn codi'n syfrdanol ar lefel ryngwladol, a phwysleisiodd bwysigrwydd dull a arweinir gan werthoedd yn y model cydweithredol a fabwysiadwyd gan Dîm Cymru ar gyfer Cwpan y Byd y Dynion FIFA yn 2022.[158] Cyfeiriodd y ddau at werthusiadau mewnol Llywodraeth Cymru sydd heb eu cyhoeddi na'u rhannu â'r Pwyllgor.

**117.** Roedd tystion eraill yn llai sicr bod y nod hwn wedi'i gyflawni gan briodoli eu barn i dystiolaeth anecdotaidd, a/neu ddiffyg metrigau, gwerthusiadau ac adroddiadau allweddol.[159]

### Ar dyfu'r economi

**118.** Roedd yr ymatebwyr yn llai cadarnhaol ynglŷn â'r nod o dyfu'r economi, gan ddweud bod diffyg manylion yn rhwystro eu gallu i ddod i gasgliadau. Er enghraifft, dywedodd GlobalWelsh ei bod yn anodd nodi meysydd sydd wedi gweithio'n dda, yn enwedig gan fod diffyg metrigau penodol i fesur llwyddiant.[160]

**119.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Dr Elin Royles "lle rydyn ni'n llai eglur ein bod ni yn gwireddu'r nod ydy yn yr elfen economaidd yna, a bod angen gwneud beth bynnag y mae modd ei wneud, achos dyna'r sgil-effaith ar fywydau pobl gyffredin yng Nghymru bob dydd"[161]. Dyfynnodd tystiolaeth ysgrifenedig Dr Royles ystadegau ar fewnfuddsoddiad a oedd yn dangos bod Cymru'n perfformio'n well na Gogledd Iwerddon yn unig o blith gwledydd a rhanbarthau'r DU. Daeth i'r casgliad bod cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â gweithgaredd allanol i dyfu'r economi.[162]

---

[157] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[158] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 5
[159] Mae rhestr o'r holl sesiynau tystiolaeth sydd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[160] WGIR 16: GlobalWelsh (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 1
[161] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 115
[162] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 2

**120.** Ychwanegodd y Ffederasiwn Busnesau Bach, er gwaethaf ffocws ar gyflawni twf economaidd, nad oes unrhyw gyfeiriad at fusnesau bach a chanolig yn y Strategaeth[163] a soniodd tystion o'r sector technoleg am yr angen i osod Cymru mewn sefyllfa strategol i fanteisio ar ei phŵer i ddenu mewnfuddsoddiad.[164]

**121.** Dywedodd GlobalWelsh nad da lle gellir gwell yn y ffordd y mae Cymru'n cael ei chyflwyno fel cyrchfan fuddsoddi a beirniadodd Lywodraeth Cymru am ei methiannau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Dywedodd hefyd mai ymgysylltu'n rhyngwladol a ddylai fod y polisi economaidd pwysicaf sydd gan Gymru.[165]

**122.** Yn ôl y British Council, er bod rhai canlyniadau da a bod buddsoddiad fel arfer yn dilyn gwaith codi proffil, bydd manteision gweithio rhyngwladol i'r economi yn wirioneddol allweddol, yn enwedig o safbwynt profi i Gymru beth y mae gweithgaredd rhyngwladol yn ei wneud.[166]

**123.** Dywedodd y Prif Weinidog am y nod hwn:

> *"… wrth gwrs roedd hi'n anodd gyda Brexit, ac ati, ond y ffaith yw, os ŷch chi'n edrych ar yr allforion, rŷn ni wedi cynyddu'r allforion £370 miliwn. Mae hwnna'n rhywbeth rŷch chi'n gallu mesur, ac rwy'n meddwl bod hwnna'n rhywbeth werth ei nodi. Ac o ran inward investments, rŷn ni wedi gweld tua £4 biliwn o fuddsoddiad o ran capital, ac rŷn ni'n meddwl bod hwnna wedi creu neu wedi helpu i gadw 20,000 o swyddi."*[167]

**124.** Dywedodd fod cyfraniad allforion at economi Cymru wedi gweld "cynnydd bach yn ystod oes y Strategaeth", gan nodi cyfraniadau CMC o 33.7 y cant yn 2019 a 34.1 y cant yn 2023.[168]

**125.** Yn ddiweddarach, adroddodd Llywodraeth Cymru fod ei Huwchgynhadledd Buddsoddi Cymru, a fynychwyd gan 300 o fuddsoddwyr o 27 o wledydd ym mis

[163] WGIR 12: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[164] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025, eitem 2
[165] WGIR 16: GlobalWelsh (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 4
[166] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 8 Mai 2025, paragraff 65
[167] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 18 Mehefin 2025, paragraff 13
[168] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025, tudalen 17

Rhagfyr 2025, wedi sicrhau "dros £16 biliwn a miloedd o swyddi"[169]. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cwestiynau wedi codi'n ddiweddarach mewn ymateb i honiadau a wnaed mewn perthynas â chanlyniadau'r uwchgynhadledd, megis bod ymrwymiadau buddsoddi hanesyddol wedi'u cynnwys yn y cyfanswm.[170]

**126.** Dysgodd y Pwyllgor yn ddiweddarach fod Amgueddfa Cymru wedi'i hatal rhag mynychu'r Uwchgynhadledd oherwydd ei chylch gwaith a'i rhestr westeion gyfyngedig, er gwaethaf datganiadau Gweinidogol yn rhoi sicrwydd bod diwylliant a chwaraeon "wrth wraidd" yr uwchgynhadledd.[171] Dywedodd Prif Weithredwr Amgueddfa Cymru, Jane Richardson, wrth y Pwyllgor:

> *"We made the case, and not least because, as you and the committee know, there is big investment needed in the cultural offer of Wales and the cultural infrastructure in Wales. And so we did press quite hard to be able to be included, but the remit was very tight for that event, and so it was felt that, for this particular event, there wasn't a need for us to be involved.[…]*
>
> *The [Welsh Government's] culture department, of course, supported us in making representation to the international department. But it was at that level—it was the organising department that made the decision."*[172]

### Ar Gymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**127.** Y nod a ddenodd y nifer mwyaf o sylwadau oedd Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Dywedodd sawl ymatebydd eu bod wedi alinio eu gwaith i gyfrannu at y nod hwn, gan gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel elfen ganolog.

**128.** Croesawodd Masnach Deg Cymru rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol,[173] a ddisgrifiodd y Ddeddf fel uwchbŵer meddal go iawn i Gymru.[174] Dywedodd y

---

[169] Llywodraeth Cymru: Datganiad i'r wasg - 30 Tachwedd 2025
[170] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 9 Rhagfyr 2025, eitem 4
[171] Y Cyfarfod Llawn: Cofnod y Trafodion - 3 Rhagfyr 2025, paragraff 27
[172] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 4 Rhagfyr 2025, paragraffau 220-225
[173] WGIR 05: Cymru Masnach Deg (Saesneg yn unig)
[174] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 171

British Council fod y Ddeddf yn ennyn cryn ddiddordeb yn rhyngwladol ac y dylai fod wrth wraidd ymdrechion i hyrwyddo Cymru fel arweinydd cynaliadwyedd.[175]

**129.** Rhybuddiodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru fod bwlch sylweddol o ran cydlynu polisi ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus a bod llawer o waith i'w wneud o hyd i feithrin dealltwriaeth glir o'r hyn y mae cyfrifoldeb ar lefel fyd-eang yn ei olygu.[176] Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker, yn cytuno. Daeth i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd da iawn wedi'i wneud ond bod llawer mwy i'w wneud mewn meysydd lle nad ydym ar y trywydd iawn i fodloni tueddiadau hirdymor.[177]

**130.** Ym maes datblygu rhyngwladol, cododd ymatebwyr bryderon ynghylch i ba raddau y mae'r nod wedi'i gydbwyso ag uchelgais economaidd. Mae Maint Cymru a Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru yn nodi y gallai pwyslais y Strategaeth ar dwf economaidd olygu y gallai materion yn ymwneud â hawliau dynol, arferion cyflogaeth foesegol a niwed amgylcheddol gael eu diystyru.[178]

**131.** Mewn tystiolaeth lafar, anghytunodd y Prif Weinidog â'r awgrym bod llai o bwyslais ar gyfrifoldeb ar lefel fyd-eang, gan ddweud:

> *"I don't think it has been de-emphasised. You should see the work we're doing in relation to the well-being of future generations Act. We're doing stuff in the United Nations [...] There is a huge amount of work being done everywhere. It's not one at the expense of another. There are lots of different things in different places being done."*[179]

[175] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[176] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[177] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 190
[178] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 3
[179] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 18 Mehefin 2025, paragraff 62

**Ein barn ni**

Rydym yn bryderus ynghylch cyfathrebu ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru yn y maes gwaith hwn.

Gwelwyd bylchau yn yr adrodd ac ymwybyddiaeth isel dro ar ôl tro mewn enghreifftiau a rannwyd gan dystion. Mae'r wybodaeth sydd ar gael am gyflawni ei strategaethau cysylltiadau rhyngwladol yn aml yn wael, y tu hwnt i bob dirnadaeth, ac mae hynny'n rhwystredig. Roedd hyn i'w weld yn y dystiolaeth a gawsom.

Mae hefyd yn cyfateb i'n profiad ni fel Pwyllgor. Ers 2021, mae ein gwaith wedi cael ei ddominyddu gan ymdrech i gael dealltwriaeth sylfaenol o drefniadau, gweithgaredd a chyflawni. Mae'r ymdrechion i gael gwybodaeth wedi bod yn anghymesur, gan olygu'n aml gorfod cyfnewid gohebiaeth sawl gwaith gan nad yw ein cwestiynau wedi cael eu hateb. Mae hyn wedi llesteirio'r gwaith craffu ac wedi gwastraffu adnoddau gwerthfawr.

Rydym wedi sicrhau rhai gwelliannau ond, yn anffodus, mae'r problemau wedi parhau.

Nid yw adroddiadau Llywodraeth Cymru yn cwmpasu pob agwedd ar gysylltiadau rhyngwladol o hyd ac nid ydynt yn cyfeirio at eu hamcanion eu hunain. Mae'r dull naratif a ddefnyddir yn bennaf, heb unrhyw gysylltiad â dogfennau strategol, yn aml yn fwy o rwystr nag o help i ni.

Rydym yn cytuno â thystion ynglŷn â phwysigrwydd esbonio gwaith rhyngwladol i'r cyhoedd, gan gynnwys er mwyn meithrin hyder, cefnogi ac osgoi camddealltwriaeth. Rydym yn adleisio ein casgliad o'n hymchwiliad i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon fod Llywodraeth Cymru yn gwneud cam â hi ei hun drwy beidio â chofnodi a chyfathrebu ei gwaith mewn ffordd ystyrlon.

Byddai cyflwyno ei gwaith cysylltiadau rhyngwladol yn fwy eglur o fudd cyffredinol o safbwynt gwella dealltwriaeth o gyfeiriad strategol y llywodraeth. Byddai hefyd yn adlewyrchu'n well ymdrechion swyddogion Llywodraeth Cymru y gwyddom sy'n gweithio'n ddiflino i hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol Cymru.

Er bod y Prif Weinidog presennol wedi cyflymu'r broses o ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn, rydym yng nghyfnodau olaf ein tymor pum mlynedd. Mae manteision derbyn diweddariadau cyfoes boddhaol yn ystod y Chweched Senedd yn amlwg ac yn niferus.

Credwn fod y Pwyllgor wedi cael ei rwystro rhag gwneud penderfyniadau gwybodus ac addasu ei waith craffu. Gwrthodwyd y cyfle iddo hefyd gynnig ei gefnogaeth i gerrig milltir rhyngwladol a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid, megis y Gymraeg yn cael ei siarad yn y Cenhedloedd Unedig am y tro cyntaf.[180]

Mae llawer o dystion, a'r Pwyllgor hwn, wedi sylwi ar gynnydd yn nefnydd Llywodraeth Cymru o'r cyfryngau cymdeithasol i adrodd ar gysylltiadau rhyngwladol. Rydym yn cytuno bod hyn yn gyfystyr â gorddibyniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Ni all y duedd ddatblygol hon ddisodli adroddiadau swyddogol, na chyfateb i'r lefel o atebolrwydd sy'n ofynnol gan y llywodraeth i'r Senedd.

Ni ddylai llywodraethau'r dyfodol osgoi cyfathrebu ymdrechion i arddangos Cymru ar lwyfan y byd a dylid ystyried y Senedd yn gynghreiriad pwysig yn hyn o beth.

Rhaid sicrhau bod dulliau adrodd gwell ar waith ar ddechrau strategaeth cysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol. Dylai adroddiadau rheolaidd gwmpasu cyflawni'r holl weithgaredd cysylltiadau rhyngwladol a dylid eu strwythuro yn erbyn nodau. Dylid cynllunio prosesau adrodd ar dargedau a metrigau mesuradwy fel eu bod yn dangos cyflawniadau ac yn hwyluso craffu, gan gynnwys gwerth am arian. Dylai adroddiadau fod ar gael yn hawdd mewn un lle ar wefan Llywodraeth Cymru a chael eu rhannu â'r Senedd.

Dylid cynllunio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd i gynyddu dealltwriaeth o gysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, dathlu llwyddiannau ac osgoi camddealltwriaeth.

Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a gawsom ar bwysigrwydd gwerthusiadau annibynnol rheolaidd ac yn galw ar lywodraethau'r dyfodol i fabwysiadu dull rhagweithiol o'u cychwyn a'u cyfranogiad mewn mynegeion cymell tawel.

**Egwyddor 8.** Dylai llywodraethau'r dyfodol roi trefniadau adrodd ar waith ar ddechrau strategaeth cysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol. Dylai adroddiadau rheolaidd gwmpasu'r holl weithgaredd cysylltiadau rhyngwladol a chael eu strwythuro yn erbyn amcanion allweddol a thargedau mesuradwy. Dylent fod yn

[180] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025, tudalen 14

hawdd eu cyrchu mewn un lle ar wefan Llywodraeth Cymru a chael eu rhannu'n rhagweithiol â'r Senedd.

**Egwyddor 9.** Dylai llywodraethau'r dyfodol gychwyn gwerthusiadau annibynnol rheolaidd a chymryd rhan mewn mynegeion cymell tawel. Dylid cyhoeddi eu canlyniadau ar wefan Llywodraeth Cymru a'u rhannu'n rhagweithiol â'r Senedd.

# 6. Adnoddau

**132.** Mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon difrifol ynghylch dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgaredd rhyngwladol drwy gydol y Chweched Senedd. Mae wedi galw droeon am gywirdeb a mwy o dryloywder ar allbynnau, canlyniadau, effaith a gwerth am arian bwriedig, ac wedi mynegi ei siom bod y tri Phrif Weinidog wedi gwrthod ymddangos yn sesiynau tystiolaeth lafar y craffu ar y gyllideb ddrafft, fel y disgwylir gan bob un o Ysgrifenyddion y Cabinet.[181]

**133.** Mae'r dyraniadau cyllideb ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol i'w gweld yn y tabl isod. Er y gallai'r rhain newid mewn cyllidebau atodol dilynol, mae'n dangos bod dros £58 miliwn wedi'i ddyrannu i wariant rhyngwladol ar ddechrau y cylchoedd cyllideb yn ystod y Chweched Senedd.

***Tabl 3: Dyraniadau cyllidebau: Cysylltiadau a datblygu rhyngwladol***

| Blwyddyn gyllideb | Cysylltiadau rhyngwladol | Datblygu rhyngwladol | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| **2021-22** | £8.554m | £2.775m | **£11.329m** |
| **2022-23** | £8.424m | £1.275m | **£9.699m** |
| **2023-24** | £8.252m | £1.359m | **£9.611m** |
| **2024-25** | £8.054m | £1.050m | **£9.104m** |
| **2025-26** | £8.193m | £1.050m | **£9.243m** |
| **2026-27**** | £8.182m | £1.050m | **£9.232m** |
| **Cyfanswm** | £49.659 | £8.559m | **£58.218m** |

Noder: Dyraniadau'r Gyllideb Derfynol yw'r rhain. Gall cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn gael eu heffeithio gan newidiadau i bortffolio gweinidogol/trosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs)/adrannau a/neu linellau'r gyllideb. **Dyraniadau Cyllideb Ddrafft yw dyraniadau 2026-27, sy'n adlewyrchu'r dyraniadau mwyaf cyfredol adeg eu cyhoeddi.

**134.** Yn lle cael y cyfle i graffu ar Brif Weinidogion mewn sesiwn dystiolaeth lafar, derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth ysgrifenedig. Roedd yr wybodaeth ysgrifenedig yn aml yn anghyflawn ac yn aneglur, gyda symiau anghyson, hyd yn oed o fewn y gyllideb gymharol fach sy'n sail i weithgaredd rhyngwladol. Yn aml, nid oedd digon o amser yn ystod y cyfnod craffu ar y gyllideb ddrafft i gyfnewid gohebiaeth.

[181] Yn fwyaf diweddar: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu , y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2026-27

Pan oedd amser yn caniatáu, derbyniodd y Pwyllgor symiau gwahanol ac amrywiol yn yr ohebiaeth a gyfnewidiwyd.[182]

**135.** O ganlyniad, nid yw'r Pwyllgor wedi bod mewn sefyllfa i graffu'n hyderus ar dros £58 miliwn a ddyrannwyd i weithgaredd rhyngwladol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd.

**136.** Daeth asesiad y Prif Weinidog ar gyflawni 278 cam gweithredu'r Strategaeth a'r cynlluniau gweithredu i law'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025.[183] Nid yw'n nodi pryd y cyflawnwyd y camau gweithredu, gan atal adolygiad ôl-weithredol o ddigonolrwydd y dyraniadau.

**137.** Ar ben hynny, mae'r asesiad yn esbonio datblygiadau allweddol sydd â goblygiadau hanfodol ar gyfer adnoddau. Er enghraifft, mae'n esbonio bod GlobalWelsh wedi cael contract i ddarparu rhwydwaith y Cymry ar wasgar, ond na chafodd hyn ei gyflawni. Yn lle hynny, trefnwyd bod swyddog Llywodraeth Cymru yn mynd ar secondiad i Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon, gan nodi newid yn y dull gweithredu. Er bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r secondiad, nid oedd yn ymwybodol o'r digwyddiadau allweddol a arweiniodd ato a allai fod wedi newid ei ddull o graffu ar Brif Weinidogion, cyllidebau drafft a GlobalWelsh fel tyst i'r ymchwiliad hwn.

**138.** Er nad yw hon yn sefyllfa a achoswyd gan y Prif Weinidog presennol, gan iddi ddechrau yn ei swydd ym mis Awst 2024, byddai diweddariadau cyfredol wedi galluogi'r Pwyllgor i gynnal gwaith craffu manwl ar y gyllideb ddrafft. Mae'n annerbyniol nad yw hyn wedi bod yn bosibl yn ystod y Chweched Senedd ac, fel yr ydym eisoes wedi dod i'r casgliad, ni all y sefyllfa hon barhau i'r Seithfed Senedd.

## Swyddfeydd tramor

**139.** Mae gan Lywodraeth Cymru 20 o swyddfeydd tramor mewn 11 gwlad i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei huchelgeisiau rhyngwladol.[184] Mae dogfen o 2020 yn nodi eu cylchoedd gwaith.[185] Mae hon yn ddogfen ychwanegol at y strategaethau a ddisgrifir uchod. Ym mis Ionawr 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod 43

---

[182] Mae pob adroddiad y Pwyllgor ar gyllidebau drafft ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[183] Y Prif Weinidog: Gohebiaeth yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol – 5 Tachwedd 2025
[184] Llywodraeth Cymru: Swyddfeydd rhyngwladol
[185] Llywodraeth Cymru: Cylchoedd gwaith rhwydwaith swyddfeydd tramor

o staff yn cael eu cyflogi ar draws ei 20 lleoliad swyddfa mewn ymateb i gyfres o gwestiynau ysgrifenedig.[186]

**140.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae tua £4.7 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer costau rhedeg blynyddol swyddfeydd tramor. Darparodd y Prif Weinidog ddadansoddiad i'r Pwyllgor yn ôl gwlad ar gyfer 2025-26 ym mis Mehefin 2025.[187] Mae cyllideb gweithgareddau ychwanegol o £750,000 wedi'i dyrannu'n gyfartal rhwng Gogledd America, Ewrop a'r Dwyrain Canol/Gogledd Affrica.[188]

**141.** Ym mis Tachwedd 2025, hysbysodd y Prif Weinidog y Pwyllgor am Adolygiad o'r Rhwydwaith Tramor.[189] Gwnaethom gwestiynu amseriad a rhesymeg y penderfyniad hwn yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2026-27.[190]

## Costau ymweliadau tramor

**142.** Ar ei gais, mae'r Pwyllgor yn cael rhestrau misol gan Lywodraeth Cymru o ymweliadau Gweinidogol tramor ac ymweliadau diplomyddol â Chymru, ond nid yw'r costau wedi'u cynnwys. Mae'n cyhoeddi costau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar ei wefan[191] ac yn darparu costau penodol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau o'r Senedd.[192]

**143.** Nodwyd y dull gwahanol a ddefnyddir gan Lywodraeth yr Alban yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol yn 2024.[193] Mae Codau i Weinidogion y ddwy lywodraeth yn gosod gofynion i adrodd ar gostau ymweliadau tramor.[194]

**144.** Mae'n ofynnol i Lywodraeth yr Alban gyhoeddi manylion pob taith dramor gan Weinidogion am y tri mis blaenorol bob chwarter. Gellir dod o hyd i'r

---

[186] Ymateb Llywodraeth Cymru: Cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 20 Rhagfyr 2024 i'w hateb ar 2 Ionawr 2025
[187] Llywodraeth Cymru: Adroddiad Blynyddol cysylltiadau rhyngwladol a gohebiaeth gan y Prif Weinidog - 9 Mehefin 2025
[188] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2026-27
[189] Llywodraeth Cymru: Tystiolaeth ysgrifenedig ar gysylltiadau rhyngwladol ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft - 31 Hydref 2025
[190] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad ar y gyllideb ddrafft 2026-27, argymhelliad 19
[191] Llywodraeth Cymru: Cyhoeddiad gwybodaeth am y Cod i Weinidogion: 6ed Senedd
[192] Er enghraifft Ymateb Llywodraeth Cymru: Cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 20 Rhagfyr 2024 i'w hateb ar 2 Ionawr 2025
[193] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Mawrth 2025
[194] Llywodraeth Cymru: Cod y gweinidogion a Llywodraeth yr Alban: Ministerial Code

manylion hyn ar ei gwefan, ochr yn ochr â gwybodaeth ehangach am ymrwymiadau gweinidogol, teithiau car, teithio domestig a rhoddion. Caiff data teithio ei rannu fesul Gweinidog, a'i gyhoeddi ochr yn ochr â nifer y swyddogion a oedd hefyd yn bresennol a'r costau[195]

## Tystiolaeth

**145.** Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen mwy o gyllid ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, gan ddisgrifio'r gwaith a gyflawnwyd gydag adnoddau cyfyngedig. Cyfeiriwyd yn aml at golli cyllid yr UE, cyllid yn lle cyllid yr UE, cyllidebau domestig digyfnewid/is a newidiadau ar lefel Llywodraeth y DU, ac roedd llawer yn poeni y gallai cyllidebau leihau yn y dyfodol.[196]

**146.** Soniodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am doriadau cyllideb yn yr un cyfnod ag y mae diddordeb yng Nghymru yn cynyddu:

> *"Fragmentation is an issue, I'd say, not just across the UK but within Wales as well. Trying to achieve all that is being achieved within the international strategy is really—. It's aspirationally amazing to try and do that, but the reality is that there are a lot of different agencies with different responsibilities involved in delivering it. And with everyone facing the cuts that have been going on, especially in the arts, it makes it very challenging to be on top of all the briefs and know who's doing what, especially with the increase in interest in Wales."*[197]

Ac:

> *"… there's a whole load of issues just to maintain our place in the world, not even to grow that."*[198]

**147.** Dywedodd Maint Cymru fod perygl i Gymru fethu â chyrraedd ei huchelgais i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang heb ddigon o adnoddau.[199] Dywedodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru fod toriadau cyllido wedi llesteirio'r gwaith o

---

[195] Llywodraeth yr Alban: Ministerial engagements, travel and gifts
[196] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[197] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025, paragraff 190
[198] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 21 Mai 2025, paragraff 190
[199] WGIR 09: Maint Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 6

weithredu'r polisi, gan bwyntio at doriad o 23.6 y cant i gyllideb datblygu rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[200]

**148.** Dadleuodd llawer fod yn rhaid i gyllid yn y dyfodol gyd-fynd ag uchelgais,[201] gan adleisio casgliad allweddol ymchwiliad y Pwyllgor i'r cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon.[202] Bu sawl galwad am gyllid tymor hwy,[203] a galwodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru am fwy o ffocws ar gyd-fuddsoddiadau.[204]

### Galw am fwy o gydweithio â Llywodraeth Cymru

**149.** Roedd cefnogaeth gref i fwy o gydlynu a chydweithio â Llywodraeth Cymru[205] gan gynnwys datblygu Strategaeth newydd.[206]

**150.** Soniodd y British Council am bwysigrwydd cael tîm cysylltiadau rhyngwladol penodedig yn y llywodraeth a disgrifiodd ei brofiad fel un rhagorol.[207] Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fod staff yn mynd yr ail filltir,[208] a dywedodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru fod y cysylltiadau'n wych.[209]

**151.** Galwodd rhai am greu fforwm rhanddeiliaid penodol i Gymru i hwyluso ymgysylltu rheolaidd.[210] Roedd y Farwnes Tanni Grey-Thompson, sy'n aelod o Gyngor Cymell Tawel newydd Llywodraeth y DU, yn cytuno, gan ddweud:

> *"… in the next iteration of the strategy, that might be something worth looking at, but it's got to be useful. It can't just be something that's*

[200] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 179
[201] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[202] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[203] Er enghraifft WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 09: Maint Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 05: Cymru Masnach Deg (Saesneg yn unig) a WGIR 14: Colegau Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[204] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad
[205] Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Pwyllgor. Mae rhestr o'r holl sesiynau tystiolaeth sydd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad ar gael ar wefan y Pwyllgor.
[206] WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[207] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 7
[208] WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 6
[209] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 200
[210] Er enghraifft Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, eitem 2

> *another talking shop. It's actually got to help deliver the Welsh Government strategy, but I'd be really interested in talking about it."*[211]

**152.** Yn ôl Cymdeithas Bêl-droed Cymru, er ei bod yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru, ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â hi:

> *"… what's lacking at the moment is that higher level strategy that maps out all of the opportunities in the longer term and looks at how those can be built upon, rather than moving from one tournament or one fixture to the next."*[212]

**Galw am fwy o gydweithio**

**153.** Cynigiodd nifer o ymatebwyr i rannu adnoddau â Llywodraeth Cymru. Roedd y cynigion yn cynnwys rhannu arbenigedd a defnyddio rhwydweithiau swyddfeydd tramor helaeth sefydliadau.[213] Awgrymodd y British Council:

> *"All partners in the international space could come together and contribute to some core metrics for Wales International in the future iterations of the strategy to really focus our efforts to support delivery for Wales and the World."*[214]

**154.** Thema gyffredin oedd y gellid gwneud mwy i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, a byddai cydweithio yn rhoi Cymru yn y sefyllfa orau ar gyfer hyn.[215] Credai Prifysgol Caerdydd y byddai cyllid ar gyfer cydweithio yn gwella safle Cymru yn y byd.[216]

**155.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker, y byddai'n pryderu am gydweithio er mwyn cydweithio yn unig, a phwysleisiodd y dylid

---

[211] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 90
[212] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 42
[213] Er enghraifft WGIR 09: Maint Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 16: GlobalWelsh (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad a WGIR 12: Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[214] WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 6
[215] Er enghraifft WGIR 09: Maint Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 15: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Ymateb i'r ymgynghoriad, WGIR 10: British Council (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad a WGIR 08: Prifysgolion Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad
[216] WGIR 18: Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 8

cynnwys y rhai sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni. Dywedodd fod angen gwneud hyn yn iawn ac yn ofalus.[217]

**156.** Argymhellodd Undeb Rygbi Cymru y dylid ystyried y darlun llawn o weithgaredd rhyngwladol yn y dyfodol:

> *"… we're probably being a bit fragmented in how we approach it at the moment, and we could make the sum much greater if we worked in that strategic way. So, that would be my challenge: to scrutinise from that perspective."*[218]

**Swyddfeydd tramor**

**157.** Dywedodd Dr Elin Royles fod enghreifftiau clir o weithgaredd rhyngwladol Cymru yn cael ei gynnal gyda lefelau cymedrol o staffio a chyllideb. Mae hi'n cymharu'r cyllid cyn ac ar ôl Brexit ac adnoddau swyddfeydd tramor:

> *"… we have been struck by the Scottish Government office in Brussels' greater numbers of staff and greater budget than the Wales Brussels office."*[219]

**158.** Cyfeiriodd at gyllidebau o £2.35-2.47 miliwn ar gyfer 2021-23 ar gyfer swyddfa Llywodraeth yr Alban ym Mrwsel yn unig, a noda mai'r tro diwethaf i wybodaeth gymaradwy ar gyfer swyddfeydd Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi oedd yn 2018-19, sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau. Nododd hefyd y gallai gwahaniaethau o ran cylch gwaith y swyddfeydd esbonio'r gwahaniaethau cyllidebol, ond mae'r diffyg data sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad yw'r cyd-destun hwn ar gael chwaith.[220]

**159.** Galwodd Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru am werthuso'r adnoddau a ddyrennir i swyddfeydd tramor sy'n ymddangos yn aml fel petaent yn cyd-fynd â blaenoriaethau twf economaidd, a allai fod yn taflu cysgod dros amcanion undod

---

[217] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraffau 274-275
[218] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: Cofnod y Trafodion – 14 Mai 2025, paragraff 139
[219] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 5
[220] WGIR 02: Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 5

byd-eang Cymru. Awgrymodd y gallai gwerthusiad sicrhau bod y swyddfeydd yn cyfrannu ac yn ymgysylltu'n ystyrlon wrth hyrwyddo cyfrifoldeb byd-eang.[221]

**Ein barn ni**

Mae sut mae gweithgaredd cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn cael ei ariannu wedi bod yn gwestiwn allweddol i ni fel Pwyllgor. Rydym wedi dod ar draws sawl problem ddifrifol gyda'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft.

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o'i 278 cam gweithredu wedi cyrraedd ar yr unfed awr ar ddeg heb nodi pryd y cymerwyd y camau gweithredu. Mae hyn yn golygu na allwn benderfynu a oedd y dyraniadau'n cynnig gwerth am arian, effaith yr arian a wariwyd, a oedd y dyraniadau'n ddigonol neu'n briodol, ac a chawsant eu diogelu rhag toriadau cyllidebol, neu a oeddent yn agored i doriadau o'r fath. Yn ogystal, mae'r asesiad yn cynnwys gwybodaeth a fyddai, yn ôl pob tebyg, wedi pennu ein dull o graffu – ar gyllidebau drafft, ar y Prif Weinidog ac ar randdeiliaid.

Y canlyniad yw bod y Pwyllgor wedi cael ei atal rhag craffu'n hyderus ar dros £58 miliwn o arian cyhoeddus a ddyrannwyd i gysylltiadau rhyngwladol.

Gwyddom fod yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd rhyngwladol yn gyfyngedig a bod pen draw iddynt. Mae risg amlwg bod casgliad helaeth Llywodraeth Cymru o strategaethau yn eu hymestyn yn rhy denau.

Byddai strategaeth â ffocws yn golygu bod angen mwy o ffocws ar ddyraniadau'r gyllideb, a byddai gwybodaeth well yn deillio o hyn. Dylai'r dull a ddefnyddir gan lywodraethau'r dyfodol alluogi craffu ariannol yn ystod y flwyddyn a chaniatáu i gysylltiadau clir gael eu gwneud â thargedau mesuradwy.

Rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i'r llywodraeth. Un o egwyddorion allweddol ein hymchwiliad i'r cysylltiad rhwng Cymru ac Iwerddon oedd y dylai adnoddau gyd-fynd ag uchelgais, a chefnogwyd hyn mewn tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

[221] WGIR 13: Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (Saesneg yn unig) - Ymateb i'r ymgynghoriad, tudalen 12

Dylid gwneud defnydd gwell o randdeiliaid. Cawsom ein taro gan eu synnwyr o gydberchnogaeth a chydgyfrifoldeb dros gyflawni'r Strategaeth ac rydym yn cytuno â'u galwadau i gyfuno adnoddau. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio cymaint â phosibl i chwalu rhwystrau o ran adnoddau a manteisio ar y lefel drawiadol o arbenigedd sydd ar gael ar garreg ei drws.

Byddai mabwysiadu Cenhadaeth Cymru yn grymuso rhanddeiliaid i alinio eu gweithgaredd a'u strategaethau rhyngwladol eu hunain â rhai Llywodraeth Cymru, gan hwyluso dull Tîm Cymru go iawn. Nid oes prinder syniadau, talent ac ewyllys da, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth, a bydd hynny o fudd i Gymru ar lwyfan y byd.

Rhaid gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth ariannol i'r Senedd a'r cyhoedd, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft, fel y disgrifir uchod ym Mhennod 3.

Byddai cynyddu amlder a'r dull o adrodd ar gostau tramor yn gam i'r cyfeiriad cywir. Mae dull Llywodraeth yr Alban o gyhoeddi costau tramor yn well na dull Llywodraeth bresennol Cymru. Byddai cyhoeddi manylion chwarterol teithio dramor pob Gweinidog dri mis yn ddiweddarach yn gwella tryloywder yn sylweddol a gellid ei ategu gan ofyniad newydd yng Nghodau i Weinidogion llywodraethau'r dyfodol.

Os cânt eu mabwysiadu, byddai egwyddorion Cenhadaeth Cymru yn mynd i'r afael â llawer o'r materion yn ymwneud ag adnoddau a nodwyd yn y dystiolaeth. Byddai'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu sianelu tuag at weithgaredd sy'n cyflawni canlyniadau pendant. Byddai ei hegwyddorion ar graffu, adrodd a rhannu gwybodaeth am Weinidogion hefyd yn trawsnewid y broses o graffu ar y gyllideb ar gyfer pwyllgor cyfrifol yn y Senedd yn y dyfodol.

**Egwyddor 10.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod gwybodaeth ariannol am weithgaredd rhyngwladol a ddarperir i'r Senedd yn ymwneud â'r amcanion allweddol a'r targedau mesuradwy yn ei strategaeth ryngwladol.

**Egwyddor 11.** Dylai llywodraethau'r dyfodol sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol i wireddu eu huchelgais strategol.

**Egwyddor 12.** Dylai llywodraethau'r dyfodol ddefnyddio rhanddeiliaid i leddfu cyfyngiadau adnoddau. Dylent sicrhau bod cydweithio cynaliadwy yn ganolog i fecanweithiau dylunio a chyflawni strategaethau rhyngwladol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod modd cyfuno adnoddau, capasiti ac arbenigedd.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **8 Mai 2025** | **Ruth Cocks, Cyfarwyddwr yng Nghymru,** British Council<br>**Dr Elin Royles, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol**, Prifysgol Aberystwyth<br>**Walter May, Sylfaenydd a Phrif Weithredwr,** Global Welsh<br>**Susana Galván Hernández, Cyfarwyddwr Gweithredol,** Taith<br>**Mali Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhyngwladol,** Urdd Gobaith Cymru<br>**Lowri Williams, Cyfarwyddwr Strategol,** Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |
| **14 Mai 2025** | **Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd,** Chwaraeon Cymru<br>**Helen Antoniazzi,** Cymdeithas Bêl-droed Cymru<br>**Abi Tierney,** Undeb Rygbi Cymru<br>**Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol,** Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Najma Hashi,** Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Sarah Rees,** Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru |
| **21 Mai 2025** | **Yr Athro Siraj Shaikh, Athro mewn Diogelwch Systemau** Prifysgol Abertawe<br>**Chris Meadows, Cyfarwyddwr,** CSconnected |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Patricia Yates, Prif Swyddog Gweithredol,**<br>Visit Britain<br>**Eluned Hâf, Pennaeth,**<br>Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| **18 Mehefin 2025** | **Eluned Morgan AS, Prif Weinidog,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Gwatkin**, **Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**David Warren, Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGIR 01** | Triathlon Cymru |
| **WGIR 02** | Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth |
| **WGIR 03** | Taith |
| **WGIR 04** | Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion |
| **WGIR 05** | Masnach Deg Cymru |
| **WGIR 06** | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch: |
| **WGIR 07** | International Links Global |
| **WGIR 08** | Prifysgolion Cymru |
| **WGIR 09** | Maint Cymru |
| **WGIR 10** | British Council |
| **WGIR 11** | International Links (Global) |
| **WGIR 12** | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| **WGIR 13** | Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru |
| **WGIR 14** | Colegau Cymru |
| **WGIR 15** | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| **WGIR 16** | Global Welsh |
| **WGIR 17** | Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru |
| **WGIR 18** | Prifysgol Caerdydd |
| **WGIR 19** | Unigolyn 01 |

## Gwybodaeth ychwanegol

| **Teitl** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Ymateb ysgrifenedig: Adroddiad Blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru 2024-25 | 9 Mai 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Croeso Cymru | 21 Mai 2025 |
| Gohebiaeth: Adroddiad blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru 2024-25 a gohebiaeth gan y Prif Weinidog | 9 Mehefin 2025 |
| Gohebiaeth: Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant, Llywodraeth yr Alban: | 16 Mehefin 2025 |
| Gohebiaeth: Diweddariad Cyntaf Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol a gohebiaeth gan y Prif Weinidog | 21 Mehefin 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol 2026-27 | 31 Hydref 2025 |
| Gohebiaeth: Y Prif Weinidog yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth Ryngwladol a’r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol | 5 Tachwedd 2025 |